# Dogfen ir Cyhoedd

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

Mr Dylan Williams
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| **PWYLLGOR SAFONAU** | | **STANDARDS COMMITTEE** |
| **DYDD IAU, 22 IONAWR 2026<br>am 10:00 o'r gloch** | | **THURSDAY, 22 JANUARY 2026<br>at 10:00 am** |
| **YSTAFELL BWYLLGOR, SWYDDFEYDD Y CYNGOR AC YN RHITHIOL DRWY ZOOM** | | **COMMITTEE ROOM, COUNCIL OFFICES AND VIRTUALLY VIA ZOOM** |
| **Swyddog Pwyllgor** | **Mrs Shirley Cooke<br>01248 752518** | **Committee Officer** |

**<u>Aelodau Annibynnol / Independent Members</u>**

Mr David Davies
Mr Thomas Rhys Davies
Mr Brace Griffiths
Mrs Gill Murgatroyd
Mr Trefor Owen

**<u>Yn cynrychioli'r Cyngor Sir / Representing the County Council</u>**

Y Cynghorydd/Councillor Margaret M Roberts
Y Cynghorydd/Councillor Dafydd Rhys Thomas

**<u>Yn cynrychioli'r Cynghorau Tref/Cymuned / Representing the Town/Community Councils</u>**

Mr Iorwerth Roberts
Mrs Margaret Thomas

***Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdudrod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cytunedig yr Awdurdod.***

## R H A G L E N

**1** **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

**2** **COFNODION CYFARFODYDD** (Tudalennau 1 - 26)

Cadarnhau cofnodion drafft cyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar y dyddiadau canlynol: -

- 16 Mai 2025 (Gwrandawiad Lleol)
- 12 Mehefin 2025
- 6 Tachwedd 2025 (Panel Dethol)
- 13 Tachwedd 2025 (Panel Dethol)

**3** **DATBLYGU AELODAU** (Tudalennau 27 - 32)

Cyflwyno adroddiad gan y Rheolwr Dysgu a Datblygu Adnoddau Dynol.

**4** **DIWEDDARIAD GWASANAETHAU DEMOCRATIADD** (Tudalennau 33 - 36)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd**.**

**5** **CWYNION AM YMDDYGIAD A GYFLWYNWYD I OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU (OGCC)** (Tudalennau 37 - 44)

Adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro mewn perthynas â: -

(a) Cynghorwyr Sir, a
(b) Cynghorwyr Tref a Chymuned
ar gyfer Chwarter 1,2 a 3

**6** **PENDERFYNIADAU CYHOEDDUS AR GYFER HOLL GYNGHORAU CYMRU GAN OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU** (Tudalennau 45 - 58)

Adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro ar Ganlyniadau Ymchwiliadau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a gyhoeddwyd ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Safonau.

**7** **PENDERFYNIADAU PANEL DYFANU CYMRU** (Tudalennau 59 - 66)

Adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro ar benderfyniadau Panel Dyfarnu Cymru a gyhoeddwyd ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Safonau.

**8** **CEISIADAU AM GANIATÂD ARBENNIG** (Tudalennau 67 - 70)

Mae'n arferol i adroddiad gael ei baratoi i'r Pwyllgor Safonau gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro ar y ceisiadau am ganiatâd arbennig a

ystyriwyd gan y Pwyllgor Safonau.

**9** **DIWEDDARIAD Y RHEOLWR GWASANAETHAU CYFREITHIOL A DIPRWY SWYDDOG MONITRO** (Tudalennau 71 - 72)

Adroddiad y Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol/Dirprwy Swyddog Monitro.

**10** **NODIADAU BRIFFIO'R PWYLLGOR SAFONAU AR GYFER AELODAU** (Tudalennau 73 - 74)

Adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro ar y nodiadau briffio'r Pwyllgor Safonau ar gyfer aelodau.

**11** **FFORWM PWYLLGOR SAFONAU CENEDLAETHOL CYMRU** (Tudalennau 75 - 80)

Adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro ar gyfarfod Fforwm Pwyllgor Safonau Cenedlaethol Cymru a gynhaliwyd 23 Mehefin 2025.

**12** **RHEOLIADAU LLYWODRAETH LEOL (PWYLLGORAU SAFONAU AC YMDDYGIAD AELODAU) (DIWYGIADAU AMRYWIOL) (CYMRU) 2025** (Tudalennau 81 - 84)

Adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro ar y Rheoliadau Llywodraeth Leol (Pwyllgorau Safonau Ac Ymddygiad Aelodau) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2025.

**13** **CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD** (Tudalennau 85 - 86)

Ystyried mabwysiadu'r canlynol: -

"O dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, gwahardd y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol ar y sail y gallai olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Atodlen 12A o'r Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd Cyhoeddus atodedig."

**14** **MATERION YMDDYGIAD** (Tudalennau 87 - 90)

Adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro yn rhannu manylion am Hysbysiadau Penderfyniadau a dderbyniwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

This page is intentionally left blank

# GWRANDAWIAD LLEOL O'R PWYLLGOR SAFONAU

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Mai 2025

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | **Aelodau Annibynnol**<br><br>Mr Trefor Owen (Cadeirydd)<br>Mr Brace Griffiths (Is-gadeirydd)<br>Mr T Rhys Davies<br>Mr John R Jones<br>Mrs Gill Murgatroyd<br><br>**Yn Cynrychioli'r Cyngor Sir**<br><br>Cynghorydd Margaret Murley Roberts<br>Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas |
| **WRTH LAW:** | Ymgynghorydd Cyfreithiol (LB)<br>Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol (MY)<br>Swyddog/Cynorthwyydd Pwyllgorau |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Llinos Lake (Swyddog Ymchwilio, OGCC)<br>Annie Ginwalla (Dirprwy Ymgynghorydd Cyfreithiol/Rheolwr y Tîm Cod Ymddygiad, OGCC) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Dim |

---

**1. CYFLWYNIAD**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

Dywedodd y Cadeirydd y byddai'r cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Safonau yn cael ei gynnal yn unol â Gweithdrefn y Cyngor ar gyfer Gwrandawiadau Safonau Lleol. Mae pawb sy'n cymryd rhan wedi cael copi o'r Weithdrefn hon cyn y cyfarfod, ynghyd â chopi o'r Agenda, yr Adroddiad Cryno Cyn-gwrandawiad ac Adroddiad y Swyddog Ymchwilio. Mae'r dogfennau hyn wedi cael eu cyhoeddi ac maent ar gael i'r wasg a'r cyhoedd.

Cyflwynodd y Cadeirydd aelodau'r Pwyllgor Safonau: -

a. Mr Trefor Owen (Cadeirydd) – Aelod Annibynnol
b. Mr Brace Griffiths (Is-Gadeirydd) – Aelod Annibynnol
c. Mr T Rhys Davies – Aelod Annibynnol
d. Mr John R Jones – Aelod Annibynnol
e. Mrs Gill Murgatroyd – Aelod Annibynnol
f. Y Cynghorydd Margaret Murley Roberts – Aelod Etholedig o'r Cyngor Sir
g. Y Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas – Aelod Etholedig o'r Cyngor Sir

Yn unol ag Erthygl 9 o Gyfansoddiad y Cyngor, caniateir i aelodau sy'n cynrychioli cynghorau cymuned gymryd rhan yng ngwrandawiadau'r Pwyllgor Safonau dim ond pan fo'r gwrandawiadau hynny yn ymwneud â chynghorau cymuned ac aelodau o gynghorau cymuned. Eglurodd na fydd yr aelodau sy'n cynrychioli cynghorau cymuned yn cymryd rhan yn y gwrandawiad heddiw gan nad yw'r gwrandawiad yn ymwneud â chyngor cymuned neu gynghorwyr cymuned.

Cyflwynwyd y Cynghorydd Ieuan Williams, testun y gwrandawiad, ynghyd ag Annie Ginwalla, Dirprwy Ymgynghorydd Cyfreithiol/ Rheolwr y Tîm Cod Ymddygiad ar ran Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC), a Llinos Lake, Swyddog Ymchwilio OGCC.

Roedd y Swyddogion canlynol yn bresennol:-

a. Miss Lynn Ball, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro
b. Mrs Mared Yaxley, Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol/Dirprwy Swyddog Monitro
c. Mrs Shirley Cooke, Swyddog/Cynorthwyydd Pwyllgorau
d. Tîm Cyfieithu

## 2. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau.

## 3. DATGANIAD O DDIDDORDEB

Fe wnaeth y Cynghorydd Margaret Murley Roberts ddatgan ei bod yn Gynghorydd yn yr un ward â'r Cynghorydd Ieuan Williams, ond nid yw hynny'n cael ei ystyried yn fuddiant personol.

Fe wnaeth y Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas ddatgan ei fod yn aelod o'r Grŵp Annibynnol, ac mai'r Cynghorydd Ieuan Williams yw'r Arweinydd Grŵp, ond nid yw hynny'n cael ei ystyried yn fuddiant personol. Dywedodd ei fod eisoes wedi cael cyngor cyfreithiol gan y Swyddog Monitro, sydd wedi cadarnhau ei fod yn gallu cymryd rhan yn y Gwrandawid.

## 4. CWORWM

Cadarnhaodd y Cadeirydd bod cworwm.

## 5. GWEITHDREFN

Dywedodd y Cadeirydd y byddai'r Pwyllgor Safonau'n dilyn Gweithdrefn y Cyngor ar gyfer Gwrandawiadau Safonau Lleol wrth ddod i benderfyniad ynglŷn â'r materion a fyddai'n cael eu trafod heddiw.

## 6. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

Gofynnodd y Cadeirydd i'r Cynghorydd Williams, y Swyddog Ymchwilio ac Ymgynghorydd Cyfreithiol y Cyngor gadarnhau p'un a oeddent yn dymuno gofyn i'r Pwyllgor Safonau wahardd y wasg a'r cyhoedd o ran neu bob rhan o'r Gwrandawiad.

Dywedodd y Cadeirydd y byddai'n rhaid iddynt ddarparu rheswm, er mwyn galluogi'r Pwyllgor Safonau i ystyried pob cais.

Gofynnwyd i'r Ymgynghorydd Cyfreithiol p'un a oedd yn dymuno gwneud cais i'r Pwyllgor i wahardd y wasg a'r cyhoedd o ran neu bob rhan i'r gwrandawiad. Dywedodd yr Ymgynghorydd Cyfreithiol, er y bydd y rhan fwyaf o sylwadau'r Cynghorydd Williams yn gyhoeddus, gofynnodd pe byddai modd i'w ddatganiad ar effaith yr achos ar ei les personol gael ei drafod heb y wasg a'r cyhoedd yn bresennol. Dywedodd, yn ei barn hi, y byddai rhannu'r wybodaeth honno'n mynd yn groes i Ddeddf Diogelu Data 2018.

Cynigodd yr Ymgynghorydd Cyfreithiol y byddai hyn yn sicrhau cydbwysedd rhwng y disgwyliadau, sef: -

a. cynnal gwrandawiad cyhoeddus
b. gwarchod preifatrwydd yr unigolyn; a,
c. sicrhau bod y Pwyllgor yn cael y darlun cyflawn, cyn dod i gasgliad.

**PENDERFYNODD y Pwyllgor Safonau dderbyn cais yr Ymgynghorydd Cyfreithiol.**

Gofynnwyd i'r Cynghorydd Williams gadarnhau p'un a oedd yn dymuno gwneud cais i wahardd y wasg a'r cyhoedd o ran neu bob rhan o'r gwrandawiad. Dywedodd ei fod yn dymuno gofyn i'r Pwyllgor Safonau wahardd y wasg a'r cyhoedd yn ystod y drafodaeth ynglyn â'r elfennau personol.

**PENDERFYNODD y Pwyllgor Safonau dderbyn cais y Cynghorydd Williams.**

Gofynnwyd i Swyddog Ymchwilio'r Ombwdsmon gadarnhau p'un a oedd yn dymuno gwneud cais i'r Pwyllgor Safonau wahardd y wasg a'r cyhoedd o ran neu bob rhan o'r gwrandawiad. Dywedodd bod yr Ombwdsmon, fel arfer, yn cefnogi'r egwyddor o gynnal gwrandawiadau cyhoeddus, oni bai bod rheswm dilys dros beidio â gwneud hynny. Cyfeiriodd at sylwadau'r Ymgynghorydd Cyfreithiol a'r Cynghorydd Williams, dywedodd nad oedd yn gwrthwynebu dan yr amgylchiadau.

**PENDERFYNWYD y byddai'r Pwyllgor Safonau'n derbyn cais y Swyddog Ymchwilio.**

## 7. HONIAD O DORRI'R COD YMDDYGIAD

### (a) CYFLWYNO'R ADRODDIAD CRYNO CYN-GWRANDAWIAD

Cyflwynodd yr Ymgynghorydd Cyfreithiol ei Hadroddiad Cryno Cyn-Gwrandawiad. Dywedodd bod y Cynghorydd Ieuan Williams wedi cyfeirio'i hun at OGCC ar ôl dweud mewn cyfarfod o'r Cyngor ar 12 Mehefin 2023, "bod angen saethu pob Tori".

Yn dilyn ymchwiliad gan OGCC, daeth yr Ymchwilydd i'r casgliad bod yr aelod etholedig wedi torri dau baragraff o'r Cod Ymddygiad. Cyfeiriwyd y mater gan OGCC at Swyddog Monitro'r Cyngor, gyda chyfarwyddyd y dylai'r mater yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor Safonau.

Yn unol â'r broses, cynhaliwyd cyfarfod cychwynnol o'r Pwyllgor Safonau ar 26 Chwefror 2025, a phenderfynwyd cynnal gwrandawiad, er mwyn galluogi'r Aelod i gyflwyno sylwadau ynglŷn â chanfyddiadau'r ymchwiliad.

Adroddodd yr Ymgynghorydd Cyfreithiol y bydd y Pwyllgor, yn ôl pwysau tebygolrwydd, yn penderfynu p'un a yw'r Aelod wedi torri'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau ai peidio. Ar ôl clywed sylwadau'r Swyddog Ymchwilio, bydd rhaid i'r Pwyllgor benderfynu p'un a yw'r Cod wedi cael ei dorri ai peidio, a bydd rhaid iddo hefyd benderfynu p'un a ddylid pennu cosb ai peidio, ac os felly, pa fath o gosb. Hefyd, mae modd i'r Pwyllgor wneud argymhellion i'r Cynghorydd a/neu'r Cyngor Sir.

Nododd yr Ymgynghorydd Cyfreithiol bod Adroddiad y Swyddog Ymchwilio ar gael yn Atodiad 2, ynghyd â'i hadroddiad. Dywedodd bod ei hadroddiad yn tynnu sylw penodol at y pwyntiau bwled ar waelod tudalen 2-3 yn adroddiad y Swyddog Ymchwilio. Mae'r prif bwyntiau yn ymwneud â'r gŵyn wedi cael eu rhestru ym mharagraff 1 yn Adroddiad y Swyddog Ymchwilio, sef *"paragraff 4(b) – rhaid i [aelodau] ddangos parch at eraill" a "pharagraff 6(1)(a) – ni ddylai [aelodau] ymddwyn mewn ffordd y gellid yn rhesymol ei hystyried yn un sy'n dwyn anfri ar [eu] swydd neu awdurdod".*

Fe wnaeth yr Ymgynghorydd Cyfreithiol amlygu'r elfennau perthnasol yng Nghanllawiau OGCC ar y Cod Ymddygiad yn Atodiad 8 yn Adroddiad y Swyddog Ymchwilio. Dywedodd bod y digwyddiadau'n gysylltiedig â'r achos wedi cael eu crynhoi ym Mharagraffau 11-19 yn yr adroddiad. Mae paragraffau 20-46 yn crynhoi'r dystiolaeth o ddatganiadau gan dystion a oedd yn bresennol yn y cyfarfod. Mae canfyddiadau'r Swyddog Ymchwilio yn cael eu cyflwyno ym Mharagraffau 56-64, ac maent yn nodi bod yr Ymchwilydd o'r farn bod Paragraff 6(1)(a) wedi cael ei dorri. Hefyd, nid oes unrhyw anghytuno ynglyn â ffeithiau'r achos, gan fod y gŵyn yn hunan-gyfeiriad gan yr Aelod, ac mae'n amlwg bod y Cod wedi cael ei dorri.

Yn dilyn penderfyniad cychwynnol y Pwyllgor Safonau i gynnal y gwrandawiad yma heddiw, gofynnwyd i'r Aelod gwblhau ffurflenni cyn-gwrandawiad yn unol â'r broses (Atodiad 3 yn yr adroddiad). Yn ei ymateb, mae'r Aelod yn cadarnhau nad oedd yn anghytuno â'r ffeithiau yn Adroddiad y Swyddog Ymchwilio ac Adroddiad Cryno Cyn-Gwrandawiad yr Ymgynghorydd Cyfreithiol.

Adroddodd yr Ymgynghorydd Cyfreithiol y bydd yn rhaid i'r Pwyllgor ddod i benderfyniad ynglyn ag unrhyw gosb neu argymhellion, pe byddai'n penderfynu bod y Cod wedi cael ei dorri.

Mae'r opsiynau sydd ar gael i'r Pwyllgor Safonau fel a ganlyn: -

(a) Peidio â chymryd unrhyw gamau;
(b) Rhoi cerydd i'r Aelod;
(c) Atal yr aelod yn rhannol am gyfnod o ddim mwy na chwe mis
(d) Atal yr aelod am gyfnod o ddim mwy na chwe mis.

Adroddodd yr Ymgynghorydd Cyfreithiol y byddai unrhyw gosb yn dod i rym 21 diwrnod wedi i'r Aelod dderbyn hysbysiad ysgrifenedig o benderfyniad y Pwyllgor Safonau.

Cynghorodd yr Ymgynghorydd Cyfreithiol y bydd cyfle i'r Cynghorydd Williams a'r Swyddog Ymchwilio gyflwyno sylwadau cyn i'r Pwyllgor Safonau ystyried unrhyw gosb,

ac y bydd cyfle i aelodau'r Pwyllgor Safonau ofyn cwestiynau.   Yna, bydd y Pwyllgor yn gadael yr ystafell i drafod y dystiolaeth a gyflwynwyd mewn sesiwn preifat.

Cynghorodd yr Ymgynghorydd Cyfreithiol y bydd y Pwyllgor yn ystyried y dystiolaeth yng nghyd-destun Canllawiau Panel Dyfarnu Cymru, ac unrhyw achosion tebyg sydd wedi cael eu cyhoeddi ar wefan OGCC.  Pe bai'r gosb yn cynnwys gwahardd yr aelod neu ei wahardd yn rhannol, bydd yn nodi pryd y bydd y gwaharddiad hwnnw'n cychwyn.  Hefyd, bydd yn ystyried a yw'n dymuno  gwneud unrhyw argymhellion i'r Aelod neu'r Cyngor Sir.

Yn dilyn sesiwn breifat y Pwyllgor Safonau bydd y Pwyllgor yn dychwelyd i gyhoeddi ei benderfyniad a'r prif reswm dros y penderfyniad, a fydd yn cael ei gyhoeddi wedi hynny.

Yn olaf bydd rhaid i'r Pwyllgor Safonau ystyried yr argymhellion canlynol: -

(a) Bod y Pwyllgor yn gofyn i'r Aelod gadarnhau ei fod wedi methu â chydymffurfio â'r Cod Ymddygiad.
(b) Bod y Gwrandawiad yn cael ei gynnal yn unol â Gweithdrefn y Cyngor ar gyfer Gwrandawiadau Safonau Lleol;
(c) Bod y Pwyllgor yn dod i benderfyniad ynglyn â'r canlynol: -

    i) Yn ôl pwysau tebygolrwydd, p'un a yw'r Aelod wedi methu â chydymffurfio â'r Cod Ymddygiad, a
    ii) Pe byddai'r Pwyllgor yn dod i'r penderfyniad bod y Cod wedi cael ei dorri, a ddylid pennu unrhyw gosb neu argymhelliad, ac os felly, beth fydd y gosb
    iii) Unrhyw argymhellion eraill.

**PENDERFYNWYD derbyn yr argymhellion yn yr adroddiad.**

**(b) CYFADDEFIAD O DDIFFYG CYDYMFFURFIO**

Gofynnodd y Cadeirydd i'r Cynghorydd Williams p'un a oedd yn cyfaddef ei fod wedi methu â chydymffurfio â'r Cod Ymddygiad.   Roedd y Cynghorydd Williams yn derbyn ei fod wedi torri'r Cod.

**(c) PENDERFYNIAD**

Fe wnaeth y Cadeirydd annerch y Cynghorydd Williams a dywedodd, gan ei fod wedi cyfaddef ei fod wedi methu â chydymffurfio â'r Cod Ymddygiad yn y modd a ddisgrifir yn Adroddiad y Swyddog Ymchwilio, ac Adroddiad Cryno Cyngyfarfod yr Ymgynghorydd Cyfreithiol, y bydd y Pwyllgor Safonau'n derbyn y ffeithiau yn adroddiad y Swyddog Ymchwilio.

Felly, penderfynodd y Pwyllgor bod y Cynghorydd Williams wedi methu â chydymffurfio â'r Cod Ymddygiad yn y modd a ddisgrifir yn Adroddiad y Swyddog Ymchwilio. Eglurodd y Cadeirydd y bydd y Gwrandawiad yn mynd ati'n syth i ystyried a ddylid cymryd unrhyw gamau yn gysylltiedig ag ymddygiad yr Aelod.

**8. OS PENDERFYNIR BOD YR AELOD WEDI METHU Â CHYDYMFFURFIO Â'R COD YMDDYGIAD**

## (a) RHAGARWYDD Y CADEIRYDD O'R MATH O GOSB

Dywedodd y Cadeirydd bod gofyn i'r Pwyllgor ystyried y canlynol gan ei fod wedi dod i'r casgliad bod y Cynghorydd Williams wedi methu â chydymffurfio â'r Cod Ymddygiad: -

a. A ddylid pennu cosb;
b. Ystyried Canllaw Panel Dyfarnu Cymru ynglyn â chosbau (os bydd cosb) a'r math o gosb fydd yn cael ei phennu;
c. Pryd y daw'r gosb honno i rym; ac
d. Unrhyw argymhellion gan y Pwyllgor Safonau i'r Cyngor.

Dywedodd y Cadeirydd bod Gweithdrefn y Cyngor ar gyfer Gwrandawiadau Safonau Lleol yn nodi bod pedwar penderfyniad ar gael i'r Pwyllgor, a allai fod yn addas yn gysylltiedig â'r mater hwn, sef:

a. Peidio â chymryd unrhyw gamau;
b. Rhoi cerydd i'r Aelod;
c. Atal yr Aelod yn rhannol am gyfnod o ddim mwy na chwe mis neu weddill ei gyfnod yn y swydd, pa un bynnag yw'r cyfnod byrraf;
d. Atal yr Aelod am gyfnod o ddim mwy na chwe mis neu weddill ei gyfnod yn y swydd, pa un bynnag yw'r cyfnod byrraf.

Fe wnaeth y Cadeirydd ailadrodd penderfyniad y Pwyllgor Safonau'n gynharach i wahardd y wasg a'r cyhoedd o'r drafodaeth yn ymwneud â phennu cost.

Awgrymodd y Cadeirydd bod y Cynghorydd Williams a Swyddog Ymchwilio'r Ombwdsmon yn cyflwyno eu sylwadau yn gyntaf, a bod y wasg a'r cyhoedd yn cael eu gwahardd o'r cyfarfod yn dilyn hynny er mwyn gwrando ar y sylwadau pellach a fydd yn cael eu trafod yn breifat.

## (b) SYLWADAU'R AELOD MEWN PERTHYNAS Â CHOSB

Rhoddwyd cyfle i'r Cynghorydd Williams gyflwyno sylwadau mewn perthynas â'r cosbau. Dywedodd nad oedd yn dymuno gwneud unrhyw sylwadau ar yr adeg honno.

## (c) SYLWADAU'R SWYDDOG YMCHWILIO MEWN PERTHYNAS Â CHOSBAU

Rhoddwyd cyfle i Swyddog Ymchwilio'r Ombwdsmon gyflwyno sylwadau mewn perthynas â chosbau, a manteisiodd ar y cyfle i wneud hynny.

Adroddodd Swyddog Ymchwilio'r Ombwdsmon, Llinos Lake, bod gofyn i'r Pwyllgor benderfynu a ddylid pennu cosb ai peidio, ac os felly, pa fath o gosb, a hynny'n seiliedig ar y ffaith bod yr Aelod wedi derbyn ei fod wedi torri'r cod a bod hynny wedi cael ei amlygu gan y Pwyllgor heddiw.

I helpu'r Pwyllgor ddod i benderfyniad, cyfeiriodd at Ganllaw Panel Dyfarnu Cymru ar Gosbau. Cynigodd anfon copi o'r Canllaw i'r Pwyllgor Safonau. Mae paragraff 18 yn y Canllaw yn amlinellu'r rhesymau y tu ôl i'r broses gosbi: -

(a) Darparu ymateb disgyblaethol pan fo aelod unigol wedi torri'r Cod;

(b) Darparu cofnod cyhoeddus o’r camymddygiad a’r gosb briodol;
(c) Sicrhau nad yw’r unigolyn neu unrhyw un arall yn ymddwyn yn amhriodol yn y dyfodol;
(d) Hyrwyddo diwylliant o gydymffurfiaeth ar draws yr awdurdodau perthnasol, a meithrin hyder y cyhoedd mewn democratiaeth leol.

Adroddodd y Swyddog Ymchwilio ei bod hi’n glir, yn gysylltiedig â difrifoldeb yr achos hwn, ac o ystyried Canllaw Panel Dyfarnu Cymru, nad yw’r achos hwn o dorri’r cod yn ddibwys. Mae’r Canllaw yn nodi ffactorau megis natur a nifer yr achosion, y canlyniadau gwirioneddol a’r effaith bosib ar unrhyw unigolyn neu unigolion, y cyhoedd yn ehangach a/neu y Cyngor cyfan, ac i ba rannau mae ymddygiad yr Aelod wedi dwyn anfri ar ei swydd, neu’r awdurdod perthnasol, neu faint o botensial sydd yno iddynt wneud hynny.

O ystyried y ffactorau hyn, awgrymodd yr Ombwdsmon bod cosb yn briodol dan yr amgylchiadau hyn. Hefyd, byddai penderfyniad i beidio â chymryd unrhyw gamau yn amhriodol yn yr achos hwn, o ystyried yr effaith negyddol ar enw da’r Aelod, yn sgil ei sylwadau.

Aeth y Swyddog Ymchwilio ymlaen i egluro, er mwyn helpu’r Pwyllgor ymhellach, y dylid nodi bod yr Ombwdsmon wedi ystyried yr amgylchiadau lliniarol yn yr achos hwn. Eglurodd bod gan y Cynghorydd Williams hanes o wasanaeth da gyda’r Awdurdod; roedd ei ymddygiad yn ddigwyddiad anarferol ac yn deillio o ddicter neu rwystredigaeth, nid oedd ei sylw wedi cael ei gyfeirio at unigolyn penodol nac er mwyn achosi niwed; nid oedd tystion yn meddwl bod y Cynghorydd Williams yn golygu hynny’n llythrennol, ac roedd y Cynghorydd Williams wedi cymryd camau ar unwaith i wneud iawn am ei ymddygiad.

Roedd y Cynghorydd wedi ymddiheuro’n syth i’r rhai a oedd yn bresennol; wedi ymddiswyddo o’i rôl fel Dirprwy Arweinydd ac wedi cyfeirio’i hun i’r Ombwdsmon; roedd wedi cydweithio â’r Ombwdsmon a’r Pwyllgor Safonau ac wedi derbyn bod ei sylw wedi torri’r Cod; mae wedi dweud ei fod yn difaru gwneud y sylw ac mae’n cydnabod y dylai fod yn fwy gofalus yn y dyfodol wrth fynegi ei farn.

Wrth symud ymlaen i’r ffactorau gwaethygol, dywedodd y Swyddog Ymchwilio bod y Cynghorydd Williams yn aelod profiadol, ei fod wedi bod yn aelod o’r Cyngor ers 2008; ar yr adeg roedd mewn uwch swydd yn y Cyngor ac mae hefyd wedi bod yn aelod o’r pwyllgor Safonau yn ystod ei gyfnod fel Cynghorydd. Dywedodd bod natur danbaid a sarhaus y sylw hefyd yn berthnasol, yn ogystal ag effaith y sylw, a’r sylw a gafodd y digwyddiad yn y wasg. Felly, mae’r sylw wedi dwyn anfri ar yr Awdurdod Lleol.

Aeth y Swyddog Ymchwilio ymlaen i ddweud y dylai’r Pwyllgor ystyried Erthygl 10 o’r Ddeddf Hawliau Dynol wrth ystyried cosbi’r Cynghorydd Williams. Awgrymwyd, gan fod yr achos yn ddifrifol, y dylai’r gosb fod yn gymesur er mwyn amddiffyn hawliau eraill a hawliau’r Cynghorydd Williams dan Erthygl 10. Wrth ystyried rhoi cosb, cyfeiriodd yr Ombwdsmon at achos Heesom. Mae’r Dyfarniad yn nodi bod rhaid cael cydbwysedd rhwng atebolrwydd am dorri’r rheolau a sicrhau bod gan y cyhoedd yr hawl i gynrychiolaeth leol, a chynnal hyder y cyhoedd mewn aelodau etholedig.

Awgrymodd y Swyddog Ymchwilio yn barchus bod gan y Cyngor nifer o aelodau etholedig y gallai’r cyhoedd gysylltu â hwy, pe byddai’r Cynghorydd Williams yn cael

cosb, heb achosi rhagfarn i'r unigolion hynny, pe na fyddai'r Cynghorydd Williams ar gael am gyfnod.

Dywedodd y Swyddog Ymchwilio bod yr Ombwdsmon fel arfer yn rhannu penderfyniadau ynglŷn ag achosion tebyg gyda'r Pwyllgor Safonau  Cadarnhaodd bod hysbysiadau penderfyniadau ar gael ond nad oes modd eu cymharu'n uniongyrchol, a'u bod yn dangos pob math o benderfyniadau a bod gwahanol gosbau'n cael eu defnyddio.  Cynigodd rannu'r penderfyniadau hynny gyda'r Pwyllgor, cyn gorffen rhoi sylwadau ynglŷn â chosbau.   Adroddodd y Cadeirydd bod y Swyddog Monitro wedi rhannu achosion tebyg gyda'r Pwyllgor.

Yn dilyn awgrym y dylai'r Pwyllgor dderbyn copi o achos Heesom, **PENDERFYNWYD y byddai'r Swyddog Monitro'n darparu copi o'r adroddiad i'r Pwyllgor.**

**PENDERFYNWYD gwahardd y wasg a'r cyhoedd er mwyn i'r Cynghorydd Williams gael siarad mewn sesiwn preifat.**

Rhannodd y Cynghorydd Williams ei sylwadau yn gysylltiedig ag effaith yr achos ar ei les personol gyda'r Pwyllgor Safonau.

*[Ar ôl rhannu'r sylwadau hyn, fe wnaeth y cyfarfod ailgychwyn gyda'r wasg a'r cyhoedd yn bresennol].*

**d)  AELODAU'R PWYLLGOR SAFONAU I GADARNHAU FOD GANDDYNT DDIGON O WYBODAETH I DDOD I FARN YNGLŶN Â CHOSB**

Roedd y Cadeirydd yn dymuno cael cadarnhad gan bob aelod o'r Pwyllgor Safonau bod ganddynt ddiogon o wybodaeth i'w galluogi i wneud penderfyniad ynglyn â p'un a ddylid rhoi cosb ai peidio, ac (os yn briodol) pa fath o gosb.

**PENDERFYNWYD bod gan y Pwyllgor ddigon o wybodaeth i ddod i benderfyniad ynglyn â chosb.**

Fe aeth y Pwyllgor Safonau i ystafell arall i ystyried y mater a dod i benderfyniad ynglŷn â'r isod: -

a. A ddylid pennu cosb;
b. Ar ôl ystyried Canllaw Panel Dyfarnu Cymru ynglyn â chosbau (os bydd cosb yn cael ei phennu), pa gosb i'w rhoi;
c. Pryd fydd y gosb yn dod i rym, ac
d. Unrhyw argymhellion gan y Pwyllgor Safonau i'r Cyngor.

*[Dychwelodd y Pwyllgor Safonau i'r brif ystafell gyfarfod; cadarnhaodd y Cadeirydd pwy a oedd yn bresennol a bod y dechnoleg yn gweithio].*

**9. PENDERFYNIAD YNGLYN Â CHOSB AC ARGYMHELLION**

Adroddodd y Cadeirydd bod y Pwyllgor Safonau wedi dod i benderfyniad ynglyn â phob un o'r pwyntiau yr oedd gofyn iddo ddod i benderfyniad yn eu cylch. Cadarnhaodd bod y Pwyllgor Safonau wedi ystyried Canllaw Panel Dyfarnu Cymru ar Gosbau, a'i fod wedi sicrhau bod ei benderfyniad wedi ystyried yr egwyddorion isod:

- Tegwch
- Budd y cyhoedd
- Cymesuredd
- Cysondeb
- Cydraddoldeb a didueddrwydd
- Hawliau Dynol

Roedd y Pwyllgor Safonau hefyd yn ystyriol o bwrpas y cosbau wrth ddod i benderfyniad ynglŷn â'r mater hwn. Fel y crynhoir yng Nghanllaw Panel Dyfarnu Cymru ar Gosbau pwrpas y gosb a roddir yw:

- darparu ymateb disgyblaethol i achos lle mae aelod unigol wedi torri'r Cod;
- gwneud cofnod cyhoeddus o'r camymddwyn a'r gosb briodol;
- sicrhau nad yw'r unigolyn na neb arall yn camymddwyn yn y dyfodol;
- hybu diwylliant o gydymffurfio ar draws yr awdurdodau perthnasol;
- meithrin hyder y cyhoedd mewn democratiaeth leol.

Hefyd, roedd y Pwyllgor Safonau wedi ystyried yr isod wrth ddod i benderfyniad ynglŷn â chosb: -

- asesu difrifoldeb y tor-amod ac unrhyw ganlyniadau i unigolion a/neu'r cyngor;
- nodi'r math cyffredinol o gosb y mae'r Tribiwnlys yn credu ei bod yn fwyaf tebygol o fod yn briodol o ystyried y tor-amod;
- ystyried unrhyw amgylchiadau lliniarol neu waethygol perthnasol a sut y gallai'r rhain effeithio ar lefel y gosb sy'n cael ei hystyried;
- ystyried unrhyw addasiad pellach sydd ei angen er mwyn sicrhau bod y gosb yn cael effaith briodol, o ran cyflawni dibenion y gosb.

Yn unol â budd y cyhoedd, ystyriodd y Pwyllgor Safonau gosbau a roddwyd gan Bwyllgorau Safonau eraill, ar gyfer achosion tebyg o dorri'r cod. Cadarnhaodd y Pwyllgor Safonau ei fod wedi myfyrio ar faterion blaenorol y mae OGCC wedi cyhoeddi adroddiadau arnynt ac sydd ar gael ar ei gwefan wrth benderfynu ar y gosb.

Ar ôl ystyried manylion yr achos fel y nodwyd yn Adroddiad y Swyddog Ymchwilio, yng nghyd-destun yr egwyddorion sydd wedi eu disgrifio uchod, roedd penderfyniad y Pwyllgor fel a ganlyn: -

- Dylid rhoi cosb;
- Y byddai'r Aelod yn cael cerydd.

  - Gwnaed yr argymhellion canlynol i'r Cyngor: -

  - Yn gyntaf, bod Cadeirydd y Pwyllgor Safonau'n trafod cymorth ffurfiol pellach gyda'r Cynghorydd Williams yn gysylltiedig â rheoli ei emosiynau a'i rôl wleidyddol yn gyhoeddus.
  - Yn ail, bod y Cyngor yn sicrhau bod pob aelod yn glir ynglyn â'r Cod Ymddygiad, a'i fod yn berthnasol i gyfarfodydd preifat yn ogystal â chyfarfodydd cyhoeddus.

Eglurwyd y byddai'r rhesymau y tu ôl i'r penderfyniadau uchod yn cael eu hamlinellu yn y penderfyniad ffurfiol a fyddai'n cael ei anfon at y Cynghorydd Williams maes o law, ac y byddai'n cael ei gyhoeddi gan y Pwyllgor yn dilyn y broses hon. Fodd bynnag, gellir crynhoi'r prif resymau y tu ôl i'r penderfyniadau hyn fel a ganlyn: -

Roedd y pwyllgor o'r farn bod difrifoldeb yr achos hwn yn arwain at gosb a oedd yn disgyn rhwng pen uchaf dim camau pellach a phen isaf atal dros dro ac eglurodd bod y ffactorau lliniarol yn yr achos hwn yn uwch o lawer na'r ffactorau gwaethygol.

Roedd y ffactorau lliniarol a ystyriwyd gan y Pwyllgor fel a ganlyn: -

- Mae gan y Cynghorydd Williams hanes o ymddygiad da dros gyfnod hir.
- Digwyddodd y camymddygiad unwaith yn unig.
- Yr Aelod roddodd wybod am y digwyddiad.
- Mae'r Aelod yn cydnabod ac yn edifarhau'r camymddwyn ac unrhyw ganlyniadau a ddeilliodd o'r sylw a wnaethpwyd ganddo.
- Ymddiheurodd y Cynghorydd yn gynnar i unrhyw un a gafodd eu heffeithio gan ei sylw.
- Mae'r Aelod hefyd wedi cymryd camau i wneud iawn am ei ymddygiad ac wedi cydweithredu â'r Swyddog Ymchwilio a'r Pwyllgor Safonau.
- Mae'r Aelod yn derbyn ei fod angen newid ei ymddygiad ac mae wedi cydymffurfio â'r Cod yn dilyn y digwyddiad.

O ran y camau nesaf adroddodd y Cadeirydd y byddai Gweithdrefn y Cyngor ar gyfer Gwrandawiadau Lleol yn parhau i gael ei dilyn.

**PENDERFYNWYD: -**

- **Bydd y Cynghorydd Williams yn derbyn e-bost gan yr Ymgynghorydd Cyfreithiol yn cadarnhau penderfyniad y Pwyllgor ac yn dilyn hynny hysbysiad ysgrifenedig ffurfiol gan y Pwyllgor. Bydd y Cynghorydd Williams yn derbyn cadarnhad o'r cyfnod sydd ganddo i gyflwyno apêl, yn unol â pharagraff 11 yng Ngweithdrefn y Cyngor ar gyfer Gwrandawiadau Safonau Lleol.**
- **Unwaith y bydd y broses wedi cael ei chwblhau, bydd yr hysbysiad ysgrifenedig ffurfiol yn cael ei rannu a'i gyhoeddi.**

Yn olaf, diolchodd y Cadeirydd i bawb a oedd yn bresennol ac a oedd wedi cyfrannu at y Gwrandawiad a daeth â'r cyfarfod i ben.

**10. DIWEDD Y CYFARFOD**

Daeth y cyfarfod i ben am 1:55pm

**MR TREFOR OWEN**
**CADEIRYDD**

# PWYLLGOR SAFONAU

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Mehefin 2025

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | **Aelodau Annibynnol** |
| | Mr Trefor Owen (Cadeirydd)<br>Mr Brace Griffiths (Is-gadeirydd)<br>Mr T Rhys Davies<br>Mr John R Jones<br>Mrs Gill Murgatroyd |
| | **Yn cynrychioli'r Cyngor Sir** |
| | Y Cynghorydd Dafydd R Thomas |
| | **Yn cynrychioli Cynghorau Tref a Chymuned** |
| | Y Cynghorydd Iorwerth Roberts (o 10:25 yb) |
| **WRTH LAW:** | Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol/Dirprwy Swyddog Monitro (MY)<br>Rheolwr Dysgu a Datblygu Adnoddau Dynol (EP) (ar gyfer eitem 5)<br>Rheolwr Sgriwtini (ar gyfer Eitem 3)<br>Swyddog Hyfforddi Adnoddau Dynol Cynorthwyol (LT) (ar gyfer Eitem 5)<br>Swyddog Pwyllgorau (SC) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Dim |

---

Talodd y Cadeirydd deyrnged i Mrs Sharon Warnes, cyn aelod annibynnol o'r Pwyllgor Safonau, a fu farw yn ddiweddar. Dywedodd fod Mrs Warnes wedi bod yn aelod o'r Pwyllgor Safonau rhwng Rhagfyr 2019 ac Ionawr 2024 a'i bod wedi gweithio'n ddiflino ar ran y Pwyllgor yn ystod y cyfnod hwnnw. Cydymdeimlodd y Cadeirydd â'i theulu, ar ei ran ei hun a'r Pwyllgor.

### 1. DATGANIAD O DDIDDORDEB

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

### 2. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Cyflwynwyd cofnodion drafft cyfarfod y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 6 Chwefror 2025 a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

Dywedodd y Cadeirydd bod y Pwyllgor wedi derbyn copi yn ddiweddar o’r gweithredoedd yn codi o’r cofnodion. Cadarnhaodd bod y camau gweithredu naill ai wedi cael eu cwblhau neu eu bod ar y gweill.

Cyflwynwyd cofnodion drafft cyfarfod arbennig y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 26 Chwefror 2025 a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

**3. DIWEDDARIAD GAN Y GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD**

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd ar waith llywodraethu a gyflawnwyd gan y Gwasanaethau Democrataidd.

Cyflwynodd y Rheolwr Sgriwtini ddiweddariad ar y cynllun gwella democratiaeth, a ddatblygwyd i fynd i’r afael â materion democrataidd a godwyd gan y Pwyllgor Safonau fel rhan o’i adolygiad o gofrestri aelodau. Rhannwyd y cynllun â’r Pwyllgor y llynedd, a chyflwynwyd diweddariad ym mis Chwefror eleni.

Nodwyd bod 15 o’r 20 gweithred sydd wedi’u cynnwys yn y cynllun bellach wedi’u cwblhau. O’r 5 sy’n weddill, mae 2 yn weithredoedd parhaus. Y dair weithred sy’n weddill yw: -

- Rhoi’r dewis i aelodau gwblhau’r gofrestr ddiddordebau sefydlog ar ochr Gymraeg Mod.Gov, yn ogystal â’r Saesneg. Cyflwynwyd cais i’r darparwr meddalwedd, ond nid oedd y mater yn cael ei ystyried yn flaenoriaeth gan mai dim ond Ynys Môn sydd wedi cyflwyno cais i’r fath. Nid yw awdurdodau lleol eraill yng Nghymru’n caniatáu i aelodau ddefnyddio’r cyfleuster hwn yn uniongyrchol. Bydd swyddogion y Cyngor, felly, yn parhau i gynnig cofnodi’r wybodaeth ar ran aelodau er mwyn lliniaru unrhyw broblemau a all godi.

- Rhoi’r dewis i aelodau gwblhau ffurflenni cofrestru diddordebau ar-lein, yn ogystal â chopïau papur. Nodwyd bod yr ymatebion wedi bod yn gadarnhaol, ac mae aelodau’n cwblhau eu ffurflenni ar amser.

- Mae’r mater yn ymwneud â chysylltu gwe-ddarllediadau ag eitemau agenda wedi’i gwblhau.

Awgrymwyd bod y weithred - cwblhau’r gofrestr sefydlog o ddiddordebau ar ochr Gymraeg a Saesneg Mod.Gov - yn cael ei chynnwys ar raglen y Fforwm Pwyllgor Safonau, er mwyn derbyn darlun mwy cyflawn o’r sefyllfa mewn awdurdodau lleol eraill yng Nghymru. Mewn ymateb, dywedodd y Cadeirydd y byddai’n fodlon codi’r mater mewn cyfarfod o’r Fforwm yn y dyfodol.

Dywedodd y Rheolwr Sgriwtini fod 22 aelod etholedig wedi cwblhau eu hadroddiadau blynyddol ar gyfer 2024/25. Atgoffwyd aelodau i gyflwyno eu hadroddiadau erbyn 6 Mehefin 2025, er mwyn eu cyhoeddi erbyn diwedd Mehefin.

Nodwyd bod angen i aelodau ddiweddaru’r cofrestri diddordebau cyn pen 28 diwrnod os oes unrhyw newid yn eu hamgylchiadau. Mae angen cwblhau cofrestr ychwanegol ar wahân at ddibenion cwblhau cyfrifon blynyddol y Cyngor.

Canolbwyntiodd y drafodaeth ar ddiweddariadau chwarterol ar hyfforddiant i aelodau a phresenoldeb mewn hyfforddiant mandadol, a anfonir at arweinyddion grwpiau at ddibenion monitro. Nodwyd bod dau o'r pedwar arweinydd grŵp wedi darparu gwybodaeth am anghenion hyfforddi aelodau etholedig drwy'r broses sgyrsiau blynyddol.

**PENDERFYNWYD: -**

- **Nodi cynnwys yr adroddiad.**
- **Bod y Cadeirydd yn cynnwys cwblhau'r gofrestr ddiddordebau sefydlog yn ddwyieithog ar fel mater ar Raglen y Fforwm Pwyllgor Safonau Cenedlaethol pan gyfyd y cyfle nesaf.**

**Gweithred: Gweler y Penderfyniad uchod.**

## 4. DATBLYGU AELODAU

Cyflwynwyd - adroddiad y Rheolwr Dysgu a Datblygu Adnoddau Dynol ar y cyfleoedd hyfforddi a datblygu a gynigiwyd i aelodau etholedig ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Safonau.

Dywedodd y Rheolwr Dysgu a Datblygu Adnoddau Dynol bod 55 o gyfleoedd hyfforddi a datblygu wedi'u cynnig i aelodau ers mis Ebrill 2023. Dywedodd bod hyn yn dyst i ymrwymiad y Tîm Dysgu a Datblygu i gynnig amrywiaeth eang o hyfforddiant i aelodau. Mae pwys mawr yn cael ei roi ar gwblhau hyfforddiant gorfodol ac mae tueddiadau cadarnhaol wedi cael eu cofnodi. Mae'r ffigyrau a ddiweddarwyd yn cynnwys y niferoedd presenoldeb canlynol: -

| | |
|---|---|
| Iechyd a Diogelwch | 35/35 |
| Diogelu Data | 33/35 |
| Seiberddiogelwch | 35/35 |

Yr un yw'r gofynion sylfaenol, sef y dylai pob aelod gwblhau'r sesiynau hyfforddi mandadol. Yn ystod y cyfnod nesaf canolbwyntir ar y teitlau sydd â lefelau cwblhau yn isel, yn cynnwys Cydraddoldeb a Diogelu. Nodwyd y byddai sesiynau hyfforddi corfforaethol ar Gydraddoldeb yn cael eu cynnal ar 2 a 8 Gorffennaf 2025.

Dywedodd y Rheolwr Dysgu a Datblygu Adnoddau Dynol y byddai ei staff yn gweithio'n agos â'r Gwasanaethau Democratiaeth i ddiwallu unrhyw anghenion hyfforddi yn dilyn cyflwyno newidiadau yn y drefn graffu leol.

Canolbwyntiodd y drafodaeth ar gynnydd wrth weithredu Cam 1af y Cynllun Datblygu ar gyfer Arweinyddion Grwpiau. Nodwyd bod pob Arweinydd Grŵp wedi cwblhau'r Proffil DiSC (personoliaeth) a, lle bo'n berthnasol, maent wedi cymryd rhan mewn sesiwn ddadansoddi un i un gyda hyfforddwr allanol arbenigol.

Mae trefniadau ar waith i symud ymlaen i Ail Gam y broses, sy'n cynnwys cyfres o bedair sesiwn hyfforddi ffurfiol dwyieithog fydd yn cychwyn fis nesaf.

Dywedodd y Rheolwr Dysgu a Datblygu Adnoddau Dynol bod llawer iawn o wybodaeth ddefnyddiol ar gael i aelodau ar y dangosfwrdd aelodau ar y Gronfa Ddysgu.

Nodwyd nad oedd neb wedi mynychu rhai o'r sesiynau hyfforddi oedd wedi'u rhestru yn Atodiad 1 a mynegwyd pryder ynglŷn â hynny. Nodwyd nad oedd yn bosib rhoi rhesymau penodol am hyn. Dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi gofyn am wybodaeth am yr aelodau nad ydynt wedi cwblhau hyfforddiant mandadol, er mwyn trafod â'r arweinyddion grwpiau perthnasol yn ystod eu cyfarfodydd yn ddiweddarach yn y mis.

**PENDERFYNWYD bod yr aelodau annibynnol yn trafod hyfforddiant mandadol gydag arweinyddion grwpiau'r aelodau hynny nad ydynt wedi cwblhau'r holl fodiwlau.**

**Gweithred: Gweler y Penderfyniad uchod.**

*(Ymunodd y Cynghorydd Iorwerth Roberts â'r cyfarfod am 10:25 yb)*

## 5. CWYNION YMDDYGIAD A GYFLWYNWYD I OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU (OGCC)

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro ynglŷn â'r cwynion chwarterol a dderbyniwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) mewn perthynas ag (a) Cynghorwyr Sir, a (b) Cynghorwyr Tref a Chymuned.

Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol/Dirprwy Swyddog Monitro fod Atodiad 1 yn cynnwys dau achos hanesyddol yn ymwneud â Chynghorwyr Sir a'u bod yn manylu ar faterion a gyfeiriwyd at OGCC yn ystod Chwarter 4 2024/25. Nid oedd unrhyw faterion newydd wedi'u hadrodd.

Roedd OGCC wedi ymchwilio i'r gŵyn gyntaf, a dderbyniwyd ym mis Awst 2023, a chyfeiriodd yr achos at y Pwyllgor Safonau er mwyn cynnal gwrandawiad lleol. Cynhaliwyd y gwrandawiad ym mis Mai 2025. Derbyniodd yr Ombwdsmon yr ail gŵyn yn erbyn Cynghorydd Sir ym mis Chwefror 2024 ac mae'n ymchwilio iddi ar hyn o bryd.

Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol/Dirprwy Swyddog Monitro bod yr adroddiad ar gyfer Chwarter 4 2024/25 yn cynnwys dwy gŵyn am Gynghorwyr Cymuned ac mae un ohonynt yn achos hanesyddol sy'n cael ei hymchwilio ers mis Ionawr 2024. Mae'r Ombwdsmon wedi penderfynu peidio ag ymchwilio i'r ail gŵyn.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys Atodiadau 1 a 2.**

**Gweithred: Dim**

## 6. PENDERFYNIADAU OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUSCYMRU

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro oedd yn crynhoi'r penderfyniadau a gyhoeddwyd gan OGCC mewn perthynas â chwynion Cod Ymddygiad yng Nghymru rhwng Ionawr a Mai 2025.

Codwyd y pwyntiau canlynol gan y Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol/Dirprwy Swyddog Monitro mewn perthynas â'r 11 achos a gyfeiriwyd at OGCC: -

- Cyngor Cymuned Llansteffan a Llanybri - nid oedd yr aelod wedi datgan buddiant personol oedd yn rhagfarnu. Wrth asesu'r achos, roedd yn amlwg i'r Ombwdsmon bod y Cynghorydd yn ddibrofiad ac nad oedd wedi derbyn hyfforddiant; nid oedd unrhyw fudd personol i'r unigolyn; nid oedd unrhyw niwed wedi'i achosi i unrhyw un arall; nid oedd bwriad ganddo i ddefnyddio ei safle i greu anfantais i eraill; ac ni fyddai'r canlyniad yn wahanol pe na bai'r aelod wedi bod yn bresennol yn y cyfarfod. Roedd yr aelod yn derbyn ei fethiannau, er nad oedd bellach yn aelod. Roedd amgylchiadau'r gŵyn, a budd y cyhoedd mewn perthynas â'r trothwy dau gam, wedi cyfrannu at benderfyniad yr Ombwdsmon yn yr achos hwn.
- Cyngor Sir y Fflint a Chyngor Tref Saltney - roedd yr aelod wedi torri'r Cod drwy beidio â datgan buddiant pan ofynnodd am fagiau tywod mewn sefyllfa o argyfwng oherwydd llifogydd. Roedd yr Ombwdsmon o'r farn bod y Cynghorydd wedi torri'r Cod gan nad oedd wedi datgan buddiant. Pe bai'r aelod wedi datgan buddiant, gallai hynny fod wedi arwain at dorri'r Cod mewn ffordd arall, megis defnyddio ei ddylanwad er mwyn derbyn y bagiau tywod. Roedd hon yn sefyllfa o argyfwng ac ni ddylai aelodau ddibynnu ar ganlyniad yr achos hwn.
- Cyngor Sir Fyny - yn yr un modd â'r achos uchod, ni ddylai aelodau ddibynnu ar y canlyniad gan fod pob achos yn seiliedig ar ei ffeithiau ei hun.
- Cyngor Cymuned Llanharan - ystyriwyd ffactorau tebyg i'r achos cyntaf, gan gynnwys y ffaith fod y Cynghorydd wedi ymddiswyddo ac nid oedd wedi elwa'n bersonol.

Nodwyd bod angen i aelodau fod yn ofalus ac ni ddylent ddibynnu'n ormodol ar yr wybodaeth a gyflwynwyd yn yr achosion hyn, gan nad yw'r ffeithiau llawn yn cael eu datgelu fel rhan o'r penderfyniad a gyhoeddwyd.

Canolbwyntiodd y drafodaeth ar sut mae awdurdodau eraill yn cyflwyno crynodebau o achosion yr Ombwdsmon. Awgrymwyd codi'r mater hwn mewn cyfarfod o'r Fforwm Pwyllgor Safonau Cenedlaethol.

**PENDERFYNWYD: -**

- **Nodi cynnwys y cronodebau achos a gyflwynwyd yn yr adroddiad.**
- **Bod sut mae Crynodebau Achos OGCC yn cael eu cyflwyno mewn awdurdodau eraill yn cael ei godi gan y Cadeirydd ar Raglen y Fforwm Pwyllgor Safonau Cenedlaethol pan gyfyd y cyfle nesaf.**

**Gweithred: Gweler y Penderfyniad uchod.**

## 7. PENDERFYNIADAU PANEL DYFARNU CYMRU (PDC)

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro yn crynhoi tri phenderfyniad a gyhoeddwyd gan Banel Dyfarnu Cymru (PDC) rhwng 1 Ionawr a 31 Mai 2025.

Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol/Dirprwy Swyddog Monitro fod PDC, wrth ystyried yr achos yn erbyn y cyn Gynghorydd Freya Bletsoe, wedi gwahaniaethu rhwng ei rôl fel Cynghorydd ar Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ac fel Cynghorydd Tref. Rhoddwyd cosb i'r aelod, sef ei anghymhwyso am 21 mis, ond nid oedd y gosb yn berthnasol i'w rôl fel Cynghorydd Sir. Daeth y Panel i'r casgliad nad oedd unrhyw dystiolaeth i awgrymu nad oedd yr aelod yn cyflawni ei rôl yn broffesiynol a phriodol.

Cyflwynwyd apêl yn erbyn penderfyniad y Pwyllgor Safonau gan y cyn Gynghorydd Gareth Baines, cyn Gynghorydd ar Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam a Chyngor Tref y Waun. Gwrthodwyd yr apêl oherwydd bod PDC wedi'i dderbyn ar ôl i'r cyfnod o 21 diwrnod ar gyfer apelio ddod i ben.

Roedd y Cynghorydd Steven Bletsoe, Cynghorydd ar Gyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr, wedi cyflwyno apêl yn erbyn penderfyniad y Pwyllgor Safonau lleol i'w atal dros dro am 6 mis. Ym marn PDC, nid oedd y toriadau yn rhai o'r math mwyaf difrifol ac felly roedd sancsiwn o 6 mis yn cael ei hystyried yn ormodol, gan mai dyma'r cyfnod mwyaf y gellir ei osod. Penderfynodd y Panel gyfeirio'r mater yn ôl at y Pwyllgor Safonau gydag argymhelliad y dylid atal yr Apelydd am 10 wythnos.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys y crynodebau achos.**

**Gweithred: Dim**

## 8. CEISIADAU AM GANIATÂD ARBENNIG

Ni chyflwynwyd adroddiad gan na dderbyniwyd yr un cais am ganiatâd arbennig yn ystod y cyfnod rhwng cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Safonau a dyddiad cyhoeddi rhaglen y cyfarfod hwn.

## 9. DIWEDDARIAD Y FFORWM PWYLLGOR SAFONAU CENEDLAETHOL

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro ynglŷn â'r uchod.

Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol/Swyddog Monitro nad oedd cyfarfod o'r Fforwm wedi'i gynnal ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Safonau ym mis Chwefror 2025.

Nodwyd y byddai cyfarfod nesaf y Fforwm yn cael ei gynnal ar 23 Mehefin 2025 a bydd y Cadeirydd yn mynychu. Yn dilyn y cyfarfod, bydd y Cadeirydd yn rhannu ei nodiadau a chofnodion y cyfarfod gyda'r Pwyllgor hwn.

Roedd y Cadeirydd yn croesawu unrhyw eitemau er mwyn iddo gyflwyno cais iddynt gael eu cynnwys ar raglenni cyfarfodydd y fforwm yn y dyfodol.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad.**

**Gweithred: dim**

## 10. ADRODDIAD BLYNYDDOL DRAFFT Y PWYLLGOR SAFONAU

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro ynglŷn â'r uchod.

Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol/Dirprwy Swyddog Monitro fod gofyniad statudol ar y Pwyllgor Safonau i baratoi a chyhoeddi adroddiad blynyddol. Dywedodd bod yr adroddiad drafft yn anghyflawn a bod rhaid cynnwys asesiad y Pwyllgor o gydymffurfiaeth arweinyddion grwpiau â'u dyletswydd statudol mewn perthynas ag ymddygiad eu haelodau. Bydd aelodau o'r Pwyllgor Safonau yn cyfarfod ag arweinyddion grwpiau i drafod y materion hyn, gan ddechrau'r wythnos nesaf. Bydd adborth o'r cyfarfodydd yn cael ei gynnwys yn yr adroddiad blynyddol, a bydd angen i'r Pwyllgor Safonau gytuno ar unrhyw newidiadau i'r adroddiad drafft. Cyflwynir yr adroddiad terfynol i'r Cyngor Llawn ym mis Medi 2025.

Tynnwyd sylw at y mân gywiriadau canlynol oedd angen eu gwneud i'r fersiynau electronig o'r adroddiad blynyddol drafft: -

- Tudalen 66 - Rhagair - Awgrymwyd bod angen newid (Awst 2024) wrth enw'r Cadeirydd i (o Awst 2024).

- Tudalen 69 - Adran ar "waith gyda Chynghorau Tref a Chymuned yr Ardal" - angen newid yr adroddiad Saesneg yn unig – dylid cyfnewid 'was' am 'with yn y frawddeg ganlynol - "The Committee's programme of work noted that it would conduct a review *was* one Community Council".

- Tudalen 72 - pwynt bwled 'Newyddlenni' - camgymeriad teipio yn y gair '*Newsletters*' yn y llinell gyntaf yn yr adroddiad Saesneg.

**PENDERFYNWYD: -**

- **Cymeradwyo cynnwys yr adroddiad blynyddol drafft ar gyfer 2024/25 a'i atodiadau, sydd wedi eu cynnwys yn Atodiad 1 i'r adroddiad, ac yn amodol ar wneud y mân newidiadau a nodir uchod.**
- **Bod yr adroddiad blynyddol drafft cyfredol (Atodiad 1) yn cael ei ddiweddaru yn unol â gwybodaeth a gesglir yn ystod y cyfarfodydd gydag arweinyddion grwpiau; a**
- **Bod unrhyw newidiadau i'r Adroddiad Blynyddol (Atodiad 1) yn cael eu gwneud naill ai mewn cyfarfod anffurfiol, neu drwy ohebu â holl aelodau'r Pwyllgor, yn unol â chyfarwyddiadau'r Cadeirydd ac ar ôl trafod gyda'r Swyddog Monitro.**
- **Cyflwyno'r adroddiad blynyddol terfynol i'r Cyngor llawn ym mis Medi 2025.**

**Gweithred: Gweler y Penderfyniad uchod.**

## 11. HYFFORDDIANT COD YMDDYGIAD AR GYFER CYNGHORAU TREF A CHYMUNED

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro ar hyfforddiant Cod Ymddygiad a gyflwynwyd i'r Cynghorau Tref a Chymuned yn yr Hydref 2024.

Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol/Dirprwy Swyddog Monitro fod y Pwyllgor Safonau wedi trefnu hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned yn yr Hydref 2024. Hyfforddiant diweddaru canol tymor oedd hwn, gan fod y Pwyllgor Safonau wedi trefnu hyfforddiant tebyg yn dilyn yr Etholiadau ym mis Mai 2022.

Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol/Dirprwy Swyddog Monitro fod y Cynghorau Tref a Chymuned wedi cael cynnig 4 sesiwn hyfforddi ar-lein a ddarparwyd gan Un Llais Cymru, h.y. dwy sesiwn Gymraeg a dwy sesiwn Saesneg. Anfonwyd gohebiaeth at y Cynghorau Tref a Chymuned er mwyn dwyn eu sylw at yr hyfforddiant, a rhannwyd gwybodaeth yn y Newyddlen chwarterol ac mewn cyflwyniad i'r Fforwm Cynghorau Tref a Chymuned a gynhaliwyd ar 19 Medi 2024. Roedd 80 o leoedd ar gael ac roedd 66 o Gynghorwyr wedi cofrestru a 48 wedi mynychu'r hyfforddiant. Nodwyd bod 19 o'r 40 Cyngor Tref a Chymuned wedi anfon o leiaf un cynrychiolydd i'r hyfforddiant. Roedd hyn yn galonogol o gymharu â'r nifer oedd wedi mynychu'r hyfforddiant blaenorol. Nodwyd hefyd ei bod yn fanteisiol i Gynghorwyr dderbyn hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad, er nad yw'n ofyn statudol. Ystyrir bod methu â mynychu hyfforddiant ar y Cod yn ffactor gwaethygol, fel y nodir yng Nghanllawiau Panel Dyfarnu Cymru.

Mynegwyd pryderon nad oedd cynrychiolwyr o 20 Cyngor Tref a Chymuned yn bresennol yn y sesiynau hyfforddi a gynhaliwyd yn 2022 nac yn 2024.

**PENDERFYNWYD: -**

- **Bod y Pwyllgor Safonau yn ystyried cynnwys yr adroddiad ac Atodiad 1 a'r wybodaeth oedd wedi'i chynnwys mewn perthynas â'r canlynol yn arbennig (a) y nifer oedd yn bresennol yn y sesiynau hyfforddi a (b) nifer y Cynghorau Tref a Chymuned nad oedd yr un o'u haelodau'n bresennol yn sesiynau hyfforddi.**
- **Bod y Cadeirydd yn ysgrifennu at yr 20 Cyngor Tref a Chymuned nad oedd yr un o'u haelodau wedi mynychu'r sesiynau hyfforddi yn 2022 nac yn 2024, gan fynegi siom y Pwyllgor a thynnu sylw at bwysigrwydd hyfforddiant a manteision mynychu'r sesiynau hyn.**

**Gweithred: Gweler y Penderfyniad uchod.**

## 12. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r canlynol:-**

**“O dan Adran 100(A)(4) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1972, cau allan y wasg a’r cyhoedd o’r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn oherwydd y tebygolrwydd y caiff gwybodaeth ei rhyddhau a honno’n wybodaeth y gwneir eithriad ohoni yn Atodlen 12A y Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm.”**

**13. MATERION YMDDYGIAD**

Cyflwynwyd - adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro, a oedd yn darparu gwybodaeth bellach am hysbysiad penderfyniad a dderbyniwyd gan OGCC yn ystod Chwarter 4, 2024/25 mewn perthynas ag achos o dorri’r Cod Ymddygiad gan Gynghorydd Tref a Chymuned penodol, ac a drafodwyd yn gyhoeddus yn gynharach yn ystod y cyfarfod, o dan Eitem 5 ar raglen.

Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol/Dirprwy Swyddog Monitro nad oedd yr achos o dorri’r Cod Ymddygiad, ym marn OGCC, yn ddigon difrifol i’w ymchwilio, ac na fyddai er budd y cyhoedd. Er hynny, roedd yr Ombwdsmon wedi cynghori’r unigolyn i dderbyn hyfforddiant perthnasol ar y Cod Ymddygiad yn ddiymdroi.

Trafododd y Pwyllgor bwyslais OGCC ar yr angen i dderbyn hyfforddiant ar y Cod ac ystyriwyd hynny yng ngoleuni’r drafodaeth a gafwyd o dan Eitem 11 heddiw, o ystyried bod hyfforddiant yn cynorthwyo i addysgu Cynghorwyr.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad er gwybodaeth.**

**Gweithred: Dim**

**14. CAU ALLAN Y WASG A’R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD mabwysiadu’r canlynol:-**

**“O dan Adran 100(A)(4) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1972, cau allan y wasg a’r cyhoedd o’r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn oherwydd y tebygolrwydd y caiff gwybodaeth ei rhyddhau a honno’n wybodaeth y gwneir eithriad ohoni yn Atodlen 12A y Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm.”**

**15. PROSES BENODI AELOD ANNIBYNNOL O’R PWYLLGOR SAFONAU**

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro ynglŷn â phroses benodi aelodau annibynnol newydd i’r Pwyllgor Safonau gan ei Banel Dethol.

Adroddodd y Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol/Dirprwy Swyddog Monitro fod cyfnod mewn swydd un aelod annibynnol yn dod i ben ym mis Rhagfyr 2025. Bydd angen i’r Pwyllgor Safonau gynnal proses recriwtio yn ystod yr Haf 2025.

Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol/Dirprwy Swyddog Monitro y byddai safbwyntiau’r Pwyllgor Safonau’n ddefnyddiol i’r Panel Dethol eu hystyried wrth

drefnu’r broses recriwtio. Gofynnwyd am farn y Pwyllgor Safonau ynglŷn â’r meini prawf a’r dogfennau oedd wedi’u cynnwys yn Atodiadau 1, 2 a 3 i’r adroddiad, fel rhan o’r broses benodi.

**PENDERFYNWYD bod y Pwyllgor Safonau wedi ystyried a derbyn y cwestiynau mewn ysgrifen italig yn yr adroddiad, a’i fod yn argymell fod ei safbwyntiau ar y materion canlynol yn cael eu cyflwyno i’r Panel Dethol mewn gohebiaeth gan Gadeirydd y Pwyllgor Safonau, yn dilyn trafodaeth â’r Swyddog Monitro:** -

**(a) Dylid gofyn am y gofynion statudol yn unig gan ymgeiswyr (dim meini prawf dewisol lleol ychwanegol), mewn ymdrech i apelio at ystod eang o unigolion.**
**(b) Ystyrir bod y ffurflen gais a’r wybodaeth a ddarperir i ddarpar ymgeiswyr yn eglur ac ystyrlon.**
**(c) Bod y Panel Dethol yn trafod â’r adran Adnoddau Dynol sut y gellir sicrhau fod yr hysbyseb yn apelio at groestoriad o gymdeithas.**
**(d) Bod trefn cwestiynau’r cyfweliad yn cael ei newid – cynigiwyd addasu’r drefn rifyddol a defnyddio mwy o gwestiynau agored mewn perthynas â chwestiynau 3, 4 a 5.**

**Gweithred: Gweler y Penderfyniad uchod.**

**Daeth y cyfarfod i ben am 12.35 yp**

**MR TREFOR OWEN**
**CADEIRYDD**

# PANEL DETHOL Y PWYLLGOR SAFONAU

## Cofnodion y cyfarfod hybrid a gynhaliwyd ar 6 Tachwedd 2025

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | **Yn cynrychioli'r Cyngor Sir** |
| | Y Cynghorydd Margaret M. Roberts (Cadeirydd) |
| | **Yn cynrychioli'r Cynghorau Tref a Chymuned** |
| | Mrs Ann Kennedy |
| | **Aelod Annibynnol** |
| | Dr Teleri M Jones |
| **WRTH LAW:** | Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol/Dirprwy Swyddog Monitro (GP)<br>Swyddog Pwyllgorau (SC) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorydd Dylan Rees |

---

**1. DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

**2. COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion drafft cyfarfod blaenorol y Panel Dethol a gynhaliwyd ar 21 Hydref 2025 ac fe gadarnhawyd eu bod yn gofnod cywir.

**3. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r canlynol:-**

**"Penderfynu o dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn oherwydd y tebygolrwydd y caiff gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwneir eithriad ohoni yn Atodlen 12A y Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm."**

**4. PENODI AELOD ANNIBYNNOL I'R PWYLLGOR SAFONAU**

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro ar y broses gyfweld ar gyfer ymgeiswyr ar y rhestr fer er mwyn penodi ar gyfer y sedd wag fel aelod annibynnol ar y Pwyllgor Safonau.

Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth Cyfreithiol/Dirprwy Swyddog Monitro fod y Panel Dethol wedi cwrdd ar 21 Hydref 2025 i lunio rhestr fer o ymgeiswyr i'w cyfweld.

Croesawodd y Cadeirydd yr ymgeisydd i'r cyfarfod a chyflwyno'r Panel.  Rhoddodd drosolwg o rôl y aelod annibynnol ar y Pwyllgor Safonau ac egluro'r broses penodi i bob unigolyn.

Cafodd yr ymgeiswyr eu hystyried yn erbyn y meini prawf a amlinellwyd yn yr adroddiad, a chynhaliwyd y cyfweliadau gan y Panel.

Gan nad oedd modd i bob ymgeisydd ar y rhestr fer fynychu cyfarfod heddiw, cytunodd y Panel i gynnal cyfweliadau pellach ar gyfer yr ymgeiswyr hynny ar ddyddiad i gytuno arno.

**PENDERFYNWYD fod y Panel Dethol yn cwrdd eto i gyfweld yr ymgeiswyr perthnasol a dod i benderfyniad ar benodi aelod annibynnol i'r Pwyllgor Safonau ar 13 Tachwedd 2025.**

Daeth y cyfarfod i ben am 11:20 am

**Y CYNGHORYDD MARGARET M. ROBERTS**
**CADEIRYDD**

# PANEL DETHOL Y PWYLLGOR SAFONAU

## Cofnodion y cyfarfod hybrid a gynhaliwyd ar 13 Tachwedd 2025

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | **Yn cynrychioli'r Cyngor Sir** |
| | Y Cynghorydd Margaret M. Roberts (Cadeirydd) |
| | **Aelod Annibynnol** |
| | Dr Teleri M Jones |
| **WRTH LAW:** | Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol/Dirprwy Swyddog Monitro (GPW)<br>Swyddog Pwyllgorau (SC) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorydd Dylan Rees<br>Mrs Ann Kennedy (Cynrychiolydd Cynghorau Tref a Chymuned) |

---

**1. DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

**2. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r canlynol:-**

**"Penderfynu o dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn oherwydd y tebygolrwydd y caiff gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwneir eithriad ohoni yn Atodlen 12A y Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm."**

**3. PENODI AELOD ANNIBYNNOL I'R PWYLLGOR SAFONAU**

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/ Swyddog Monitro ar y broses gyfweld ar gyfer ymgeiswyr ar y rhestr fer er mwyn penodi ar gyfer y sedd wag fel aelod annibynnol ar y Pwyllgor Safonau.

Yn dilyn cyfarfod y Panel Dethol ar 21 Hydref 2025, lluniodd y Panel restr fer o ymgeiswyr ar gyfer eu cyfweld. Ystyriwyd yr ymgeiswyr yn erbyn y meini prawf a amlinellwyd yn yr adroddiad.

Nodwyd fod y Panel wedi cynnal cyfweliadau ar gyfer yr ymgeiswyr ar y rhestr fer ar 6 Tachwedd. Roedd y Panel wedi cytuno dod at ei gilydd eto a chynnal cyfweliadau, fel

rhan o gyfarfod heddiw, ar gyfer y rhai hynny nad oeddent yn gallu mynychu cyfweliadau ar y 6ed.

Croesawodd y Cadeirydd yr ymgeisydd i'r cyfarfod a chyflwyno'r Panel.  Rhoddodd drosolwg i'r unigolion o rôl aelod annibynnol o'r Pwyllgor Safonau ac eglurodd y broses benodi.

Cynhaliodd y Panel gyfweliadau ac yna cynhaliwyd trafodaeth er mwyn gallu dod i benderfyniad ar benodiad.

**PENDERFYNWYD: -**

- **Bod y Panel yn dewis un ymgeisydd i'w henwebu ar gyfer eu penodi ar y Pwyllgor Safonau.**
- **Bod Cadeirydd y Panel yn cyflwyno adroddiad i'r Cyngor Llawn ar y cyfle cyntaf posibl gan enwebu'r ymgeisydd llwyddiannus (yn amodol ar dystlythyrau boddhaol).**
- **Bod Cadeirydd y Panel yn argymell i'r Cyngor Llawn bod yr ymgeisydd sy'n dod yn ail yn y cyfweliadau (cyntaf wrth gefn) ac yn drydydd (ail wrth gefn) yn cael eu penodi yn awtomatig i unrhyw swydd wag sy'n codi ar gyfer aelod annibynnol o'r Pwyllgor Safonau petai cyfle o'r fath yn codi o fewn y deuddeg mis nesaf (yn amodol ar dystlythyrau boddhaol a chytundeb yr ymgeiswyr).**

Daeth y cyfarfod i ben am 3:45pm

**Y CYNGHORYDD MARGARET M. ROBERTS**
**CADEIRYDD**

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | PWYLLGOR SAFONAU |
| **DYDDIAD:** | IONAWR 2026 |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | DATBLYGIAD AELODAU |
| **ADRODDIAD GAN:** | RHEOLWR DYSGU A DATBLYGU |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | ELEN PRITCHARD |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | DARPARU DIWEDDARIAD AR FATERION DYGU A DATBLYGU AR GYFER AELODAU ETHOLEDIG |

## 1. CEFNDIR

Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi diweddariad i'r Pwyllgor Safonau ar faterion dysgu a datblygu aelodau, hynny ers yr adroddiad a gyflwynwyd ym mis Mehefin 2025 a chan roi trosolwg o'r ddarpariaeth a gynhigiwyd i'n Haelodau Etholedig dros y cyfnod diwethaf.

## 2. Y CYNLLUN

Fel y byddwch yn ymwybodol mae'r cynllun dysgu sydd wedi ei osod ar gyfer ein Haelodau Etholedig wedi'i rannu i'r penawdau penodol canlynol; **Hyfforddiant mandadol; Cyffredinol; Iechyd a Lles; Ar gais ac modiwlau e-Ddysgu**. Gyda'r penawdau penodol hyn mewn golwg, rydym yn cynnig diweddariad isod ar y ddarpariaeth hyfforddiant o fis Ebrill 2023 hyd at hyn.

Cynigiwyd cyfanswm o 55 o gyfleoedd dysgu a datblygu i Aelodau Etholedig gan y Tîm Dysgu a Datblygu. Manylion llawn wedi eu cynnwys yn Atodiad 1.

Gweler y wybodaeth ddiweddaraf isod am yr hyfforddiant sydd wedi'i ddynodi'n fandadol (fel yr amlinellir gan y Gwasanaethau Democrataidd), a'u lefelau presenoldeb cyfatebol;

| | |
|---|---|
| Côd Ymddygiad | 35/35 |
| Iechyd a Diogelwch | 33/35 |
| Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant | 34/35 |
| Diogelu Data | 33/35 |
| Seiberddiogelwch | 35/35 |
| Diogelu | 29/35 |

Y disgwyl ydi bod pob Aelod yn mynychu'r teitlau hyn fel isafswm a bod unrhyw hyfforddiant / digwyddiadau pellach ar gael i gefnogi'r teitlau allweddol hyn.

Mae gwaith yn parhau i fynd yn ei flaen er mwyn uchafu niferoedd cwblhau y teitlau hyn.

## 3. HYFFORDDIANT DIOGELU

Mae'n amserol i ddiweddaru'r Pwyllgor hwn ar y maes uchod, yn enwedig â'r teitl hwn bellach yn arddangos y lefel cwblhau isaf ymysg y teitlau mandadol sy'n ddisgwyliedig i'w cwblhau.

Yn dilyn lansiad fframwaith hyfforddi a safonau diogelu newydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn 2024 mae diweddariadau wedi eu gwneud i'r arweiniad yn y maes yma. Mae'n dilyn felly bod angen addasu'r hyfforddiant diogelu sy'n cael ei rannu gennym yma yng Nghyngor Sir Ynys Môn. Gellir mofyn gwybodaeth pellach ar y safleoed isod:

**https://gofalcymdeithasol.cymru/adnoddau/lansiad-y-fframwaith-hyfforddiant-dysgu-a-datblygu-diogelu-cenedlaethol**

**https://gofalcymdeithasol.cymru/adnoddau-canllawiau/diogelu-rhestr/safonau-hyfforddiant-dysgu-a-datblygu-cenedlaethol**

Mae'r fframwaith newydd hwn wedi ei rannu yn 7 rhan, sy'n cynnwys Grŵpiau A – F .

Bydd gofyn i'n Haelodau Etholedig gwblhau'r Hyfforddiant Grŵp A a Grŵp F.

Mae Grŵp A yn cyfateb i'r cwrs ymwybyddiaeth sylfaenol diogelu blaenorol. Mae'r modiwl e-ddysgu yma wedi ei greu gan Gofal Cymdeithasol Cymru ac wedi ei nodi'n fodiwl mandadol i holl aelodau staff Cyngor Sir Ynys Môn mwn cyfarfod diweddar o'r Tîm Rheoli Corfforaethol. Mae gofyn ar i unrhyw aelod o staff newydd gwblhau'r modiwl e-ddysgu o fewn y 6 mis cyntaf o'u cyflogaeth ac fel rhan or broses anwytho. Mae ymarferwyr Grŵp A yn cynnwys pob aelod o staff sy'n ymuno â sefydliadau cyhoeddus neu wirfoddol yng Nghymru. Mae'r safonau hyfforddi hefyd yn berthnasol i weithwyr y sector preifat, gwirfoddolwyr, ac Aelodau Etholedig Awdurdodau Lleol.

Bydd angen i bob un adnewyddu eu dysgu drwy'r ddarpariaeth e-ddysgu sydd ar gael pob tair mlynedd (Hyn yn berthnasol ar draws pob Grŵp).

Mae'r modiwl e-ddysgu ar gael drwy'r **Gronfa Ddysgu** Cwrs: Diogelu (Grŵp A) neu ar wefan Gofal Cymdeithasol Cymru Grŵp A Diogelu | Gofal Cymdeithasol Cymru

Mae angen i ymarferwyr Grŵp F gwblhau y modiwl e-ddysgu sy'n berthnasol i Grŵp A yn ogystal â mynychu unrhyw hyfforddiant perthnasol pwrpasol yn ôl yr angen. Byddai cwrs Rhianta Corfforaethol yn cael ei gyfrif yn berthnasol i Grŵp F.

Mae'r rolau canlynol yn enghreifftiau o rolau sydd angen cyfarch gofynion Grŵp F yma yng Nghyngor Môn; Aelodau Etholedig, y Prif Weithredwr a Phenaethiaid Gwasanaeth ayyb.

Noder ei bod yn ofyniad o dan y rheoliadau newydd i fod yn ail ymweld neu adnewyddu hyfforddiant diogelu am gyfnod o o leiaf 6 awr, hynny bob tair blynedd.

## 4. CYNLLUN DATBLYGOL AR GYFER ARWEINYDDION GRWPIAU

Yn dilyn cymeradwyaeth gan y Pwyllgor hwn mae cynnydd da yn cael ei wneud ar weithredu'r Cynllun.

- Mae pob un o'n Harweinyddion Grwpiau wedi cwblhau Proffil DiSC (math o broffil personoliaeth) a lle'n berthnasol wedi ymgymryd â Sesiwn Dadansoddi 1:1 gydag hyfforddwr annibynnol.
- Mae 3/4 sesiwn cymhelliant ffurfiol wedi eu cynnal ar gyfer 3 allan o 4 o'n Harweinyddion Grŵp gyda threfniadau yn yr arfaeth ar gyfer trefnu'r bedwaredd sesiwn a'r olaf yn y gyfres.

Noder fod darpariaeth wedi ei wneud er mwyn sicrhau bod y gweithgareddau uchod ar gael yn ddwyieithog ac i ddilyn yn newis iaith yr unigolyn.

Ymhellach i hyn byddem yn edrych ar bob cyfle i gyfeirio ein Haelodau Etholedig at y trwch ddarpariaeth sydd ar gael gan CLILC ac Academi Cymru fel y bo'n berthnasol.

## 5. CYFATHREBIADAU

Mae'r cydweithio agos rhwng y Tîm Dysgu a Datblygu a'r Gwasanaeth Democrataidd ac unrhyw Swyddogion perthnasol eraill yn yr Awdurdod yn parhau i'w gyfrif yn effeithiol. Hynny'n sicrhau bod unrhyw gynllun yn mynd i'r afael ag anghenion ein Haelodau Etholedig ac yn parhau i esblygu'n ôl y gofyn.

Mae gwahoddiadau i fynychu hyfforddiant yn parhau i gael eu rhannu drwy'r trefniadau arferol drwy gyfeiriad e-bost *CefnogaethAelodau*, yn ogystal â gwahoddiadau trwy apwyntiadau calendr electronig uniongyrchol.

Rhennir adroddiadau chwarterol gyda'r Gwasanaethau Democrataidd, sydd wedyn yn cael eu rhannu gydag Harweinyddion Grŵp. Bydd yr adroddiadau hyn yn cynnwys manylion am hyfforddiant mandadol a'r holl hyfforddiant arall a gwblhawyd o fewn y chwarter penodol hwnnw.

## 6. FFURF TROSGLWYDDO

Ar y cyfan, mae'r sesiynau’n cael eu cynnal fel sesiynau ystafell ddosbarth, mae’r symudiad diweddar i fod yn cynnig rhai sesiynau rhithiol yn ogystal yn parhau gydag opsiwn pellach lle’n addas ac yn berthnasol i fod yn recordio sesiynau at ddefnydd pellach. Noder, bod y dull cyflwyno’n ddibynnol ar y pwnc dan sylw yn ogystal â pha ddull a gynigir / ffafrir gan y darparwr Hyfforddiant.

Mae Aelodau Etholedig yn parhau i gael cynnig y dewis o fynychu sesiwn o fewn diwrnod gwaith arferol neu sesiwn gynnar gyda'r nos i sicrhau bod ymrwymiadau'r Aelodau Etholedig yn cael eu hystyried ynghyd â chynyddu presenoldeb ar sesiynau.

Yn unol â’r hyn adroddwyd ym mis Chwefror mae sesiynau erbyn hyn yn cael eu cynnal fel sesiynau uniaith Gymraeg a Saesneg ar wahân, hyn er mwyn unioni gyda’r trefniant Corfforaethol i staff. Fodd bynnag, mae’r trefniant hon yn ddibynnol ar allu sicrhau lefelau mynychu iach i’r sesiynau fydd yn cael eu cynnal.

## 7. I GRYNHOI

Mae'r cynllun dan sylw yn parhau i’w chyfri’n esblygol a bydd yn parhau i gael ei hadolygu a'i diwygio’n ôl y gofyn, e.e. yn dilyn newidiadau mewn Deddfwriaeth; gweithdrefnau; Materion allanol ac ati. Bydd hyn yn sicrhau ein bod yn gallu ymateb i'r anghenion a nodwyd a sicrhau darpariaeth amserol.

## 8. ARGYMHELLIAD

I nodi cynnwys yr adroddiad

**Cynnig hyfforddiant a datblygiad i Aelodau Etholedig 2023 - 2025**

**Training and Development offered to Elected Members 2023 - 2025**

| Teitl y Cwrs | Mynychwyd / Attended | Gwahoddwyd / Invited | Course Title |
|---|---|---|---|
| **Côd Ymddygiad** | **1** | **1** | **Code of Conduct** |
| **Côd Ymddygiad** | **2** | **2** | **Code of Conduct** |
| **Côd Ymddygiad** | **3** | **3** | **Code of Conduct** |
| **Cyfansoddiad y Cyngor** | **1** | **1** | **Council Constitution** |
| **Delio gyda'r Wasg** | **3** | **8** | **Dealing with the Press** |
| **Diogelu i Aelodau** | **6** | **14** | **Safeguarding for Members** |
| **Sesiwn Sgiliau TGCh 1-i-1** | **3** | **3** | **1-to-1 ICT Skills Session** |
| **Sesiwn Sgiliau TGCh 1-i-1** | **2** | **3** | **1-to-1 ICT Skills Session** |
| **Sesiwn Sgiliau TGCh 1-i-1** | **2** | **2** | **1-to-1 ICT Skills Session** |
| **Sesiwn Sgiliau TGCh 1-i-1** | **2** | **3** | **1-to-1 ICT Skills Session** |
| **Sesiwn Sgiliau TGCh 1-i-1** | **2** | **3** | **1-to-1 ICT Skills Session** |
| **Sesiwn Sgiliau TGCh 1-i-1** | **0** | **1** | **1-to-1 ICT Skills Session** |
| **Ymwybyddiaeth Ofalgar** x2 **(***agored i bawb***)** | **0** | **35** | **Mindfulness Awareness** x2 **(***open to all***)** |
| **Ymwybyddiaeth Menopos (***agored i bawb***)** | **0** | **35** | **Menopause Awareness (***open to all***)** |
| **Sgiliau Cadeirio** | **1** | **2** | **Chairing Skills** |
| **Sgiliau Cadeirio** | **3** | **3** | **Chairing Skills** |
| **Sgiliau Craffu Effeithiol** | **1** | **1** | **Principles of Effective Scrutiny** |
| **Cyflwyniad i Newid Hinsawdd** | **11** | **26** | **Introduction to Climate Change** |
| **Cyflwyniad i Newid Hinsawdd** | **4** | **21** | **Introduction to Climate Change** |
| **Cyflwyniad i Newid Hinsawdd** | **3** | **19** | **Introduction to Climate Change** |
| **Cyflwyniad i Newid Hinsawdd** | **3** | **12** | **Introduction to Climate Change** |
| **Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant** | **0** | **4** | **Equality, Diversity & Inclusion** |
| **Diogelu Data** | **6** | **13** | **Data Protection** |
| **Diogelu Data** | **8** | **12** | **Data Protection** |
| **Ymwybyddiaeth Diogelu i Aelodau** | **9** | **15** | **Safeguarding Awareness for Members** |
| **Ymwybyddiaeth Diwylliannol Sipsiwn a Theithwyr** | **13** | **30** | **Gypsies and Travellers' Cultural Awareness** |
| **Ymwybyddiaeth Twyll a Llygredd** | **12** | **44** | **Fraud and Corruption** |
| **Ymwybyddiaeth Twyll a Llygredd** | **4** | **44** | **Fraud and Corruption** |
| **Beth mae'n ei olygu i fod yn Ynys sy'n Wybodus am Drawma?** | **5** | **11** | **What does it mean to be a Trauma Informed Island** |
| | **2** | **2** | **Cyber Security Video** |
| **Arweinyddiaeth Gymunedol Flaengar I Gynghorwyr** | **1** | **1** | **Progressive Community Leadership Training** |
| **Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant** | **0** | **4** | **Equality, Diversity & Inclusion** |
| **Iechyd a Diogelwch i Aelodau** | **7** | **20** | **Health & Safety for Members** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Iechyd a Diogelwch i Aelodau | 4 | 20 | Health & Safety for Members |
| Gwrth-Hiliaeth | | | Anti Racism |
| Gwrth-Hiliaeth | 9 | 35 | Anti Racism |
| Grŵp 6: Cryfhau Arweinyddiaeth | 9 | 35 | Group 6: Strengthening Leadership |
| (VAWDASV) | 9 | 35 | (VAWDASV) |
| Rhentu Doeth Cymru | 2 | 10 | Rent Smart Wales |
| Grŵp 6: Cryfhau Arweinyddiaeth (VAWDASV) | 16 | 6 | Group 6: Strengthening Leadership (VAWDASV) |
| Cynllunio i Aelodau | 34 | 26 | Planning for Members |
| Gwrandawiadau'r Pwyllgor Safonau ar y Côd Ymddygiad | 10 | 6 | Standards Committee's Code of Conduct Hearings |
| Cynllunio - Cyfarwyddyd Erthygl 4 | 33 | 23 | Planning - Article 4 Direction |
| Iechyd a Diogelwch i Aelodau | 9 | 9 | Health and Safety for Members |
| Diogelu Data (cwrs staff yn agored i bawb) | 6 | 4 | Data Protection (staff course open to all) |
| Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (cwrs Cymraeg i staff, wedi agor i bawb) | 5 | 0 | Equality, Diversity, and Inclusion (Welsh staff course opened to all) |
| Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (cwrs Saesneg i staff, wedi agor i bawb) | 5 | 1 | Equality, Diversity, and Inclusion (English staff course opened to all) |
| Seibrddiogelwch i Aelodau | 1 | 1 | Cyber Security for Members |
| Craffu ar y Gyllideb: Edrych Ymlaen | - | 2 | Budget Scrutiny: Looking Forward |
| Seibrddiogelwch i Aelodau | 1 | 1 | Cyber Security for Members |
| Sesiwn 'Cyber Ninjas' i Gynghorwyr | 35 | 7 | 'Cyber Ninjas' session for Councillors |
| Dangos Effaith - Gofyn y cwestiwn 'felly beth' | - | 3 | Demonstrating Impact - Asking the 'so what' question |
| Ymwybyddiaeth o'r Iaith Gymraeg | 1 | 1 | Welsh Language Awareness |
| Gweithdy Cyfathrebu a Chydweithio (DiSC©) | 2 | 2 | Communication and Collaboration workshop (DiSC©) |
| Gweithdy Cyfathrebu a Chydweithio (DiSC©) | 1 | 1 | Communication and Collaboration workshop (DiSC©) |
| Gweithdy Cyfathrebu a Chydweithio (DiSC©) | 1 | 1 | Communication and Collaboration workshop (DiSC©) |
| Cyflwyniad i Newid Hinsawdd (cwrs staff yn agored i bawb) | - | 1 | Introduction to Climate Change (staff course open to all) |

| CYNGOR SIR YNYS MON | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Pwyllgor Safonau |
| **Dyddiad:** | 22 Ionawr 2026 |
| **Teitl yr adroddiad:** | Diweddariad Gwasanaethau Democrataidd |
| **Pwrpas yr adroddiad:** | Diweddaru'r Pwyllgor ar waith llywodraethu a chefnogi y gwasanaeth. |
| **Awdur:** | Dyfan Sion, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd |

**Cefndir**

1. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi diweddariad i'r Pwyllgor ar waith y gwasanaeth democrataidd mewn perthynas a llywodraethiant a chefnogaeth aelodau.

**Adroddiadau Blynyddol Aelodau Etholedig**

2. Derbyniwyd 23 (66%) adroddiad blynyddol aelod etholedig ar gyfer 2024/25. Mae hyn yn is na'r 26 a dderbyniwyd ar gyfer 23/24. Er hynny, mae'r ganran o adroddiadau a dderbyniwyd yn cymharu'n ffafriol gyda cynghorau eraill ar draws y gogledd. Mae'n bwysig nodi hefyd nad oes gofyn statudol ar aelodau i ddychwelyd adroddiad.

3. Byddwn yn cychwyn y broses o atgoffa aelodau o'r angen i ddarparu adroddiad ar gyfer 25/26 yn fuan. Byddwn hefyd yn rhannu templed a chyfarwyddiadau ar gyfer cwblhau'r adroddiad ac yn dilyn hynny i fyny gyda negeseuon atgoffa rheolaidd. Bydd gofyn i'r adroddiadau gael eu cwblhau a'u dychwelyd erbyn diwedd mis Mai.

**Cofrestr datgan diddordeb**

4. Caiff aelodau eu hatgoffa o'r angen i ddiweddaru eu cofrestrau o fewn 28 diwrnod gwaith i unrhyw newid mewn amgylchiadau.

5. Anfonwyd y neges atgoffa ddiweddaraf i'r aelodau ar 13 Ionawr. Roedd yn cynnwys cyfarwyddiadau ar gyfer diweddaru'r gofrestr ar-lein ac yn cynnig yr opsiwn i gysylltu gyda swyddogion os am gymorth pellach.

**Sgyrsiau datblygu blynyddol a chofnodion hyfforddiant**

6. Caiff diweddariadau ar hyfforddiant aelodau eu hanfon at arweinyddion grŵp perthnasol yn rheolaidd. Mae hynny'n fodd o fonitro presenoldeb mewn hyfforddiant, a hyfforddiant mandadol yn benodol. Mae'r lefelau cwblhau hyfforddiant mandadol wedi gwella dros y misoedd diwethaf yn sgil ymdrechion y tim dysgu a datblygu a'r gwasanaeth democrataidd.

7. Mae proses "sgwrs flynyddol" mewn lle ar gyfer arweinyddion grŵp a'u haelodau. Trefniant ydi hwn i alluogi arweinydd grŵp i drafod datblygiad yr aelod dan sylw ac unrhyw faterion eraill perthnasol fel llesiant ac hyfforddiant. Byddwn yn rhannu templed sgwrs flynyddol 25/26 gyda arweinyddion grŵp diwedd Chwefror.

8. Mae cynnwys y sgyrsiau yn gyfrinachol rhwng yr arweinydd a'r aelod, ond gofynnwn i'r arweinyddion rannu unrhyw wybodaeth am ofynion hyfforddiant sy'n codi o'r sgyrsiau fel bod modd eu cynnwys yng nghynlluniau hyfforddi a datblygu'r Cyngor.

**Ymgysylltu**

9. Fe wnaeth y gwasanaeth ymgysylltu gyda aelodau etholedig ac aelodau lleyg ar amseroedd cyfarfodydd y Cyngor yn ystod haf 2025. Ar y cyfan roedd aelodau yn fodlon gyda'r trefniadau. Trafodwyd y canlyniadau a chytuno ar ffordd ymlaen yng nghyfarfod y Pwyllgor Democrataidd ym mis Tachwedd.

10. Cafodd sesiwn "galw i mewn" ei beilota gyda'r Bwrdd Iechyd ym mis Tachwedd. Trefnwyd bod rhai o uwch swyddogion rhanbarthol y Bwrdd Iechyd ar gael i glywed pryderon ac ateb cwestiynau aelodau. Roedd yn sesiwn agored ac anffurfiol ac mae'r adborth wedi bod yn gadarnhaol. Yn sgil hynny byddwn yn trefnu sesiwn arall yn ystod 2026.

11. Mae disgyblion blwyddyn 6 ysgolion cynradd yr Ynys wedi cael gwahoddiad i ymweld a'r Siambr a chael sesiynau cwestiwn ac ateb gyda aelodau. Ymwelodd 4 ysgol gyda'r Cyngor yn 2025 ac mae trefniadau i wahodd rhagor o ysgolion yn 2026.

**Etholiadau**

12. Mae'r tim etholiadau yn y gwasanaeth yn gweithredu amserlen statudol ar gyfer cynnal is-etholiad Ynys Gybi ar 5 Chwefror, ac mae gwaith paratoi wedi dechrau ar gyfer etholiadau Senedd Cymru ym mis Mai 2026.

13. Bydd adolygiad cymunedol o drefniadau etholiadau cynghorau tref a chymuned yn cychwyn yn hwyrach ym mis Ionawr. Fel rhan o'r adolygiad, byddwn yn ystyried os ydi niferoedd y ward etholiadol a nifer yr aelodau ar gynghorau tref a chymuned yn addas. Mae'n arfer da cynnal arolwg cyn etholiadau lleol 2027.

**Argymhelliad**

14. Gofynnir i'r Pwyllgor nodi cynnwys yr adroddiad.

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN / ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD:** | **22 Ionawr 2026** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Cwynion am Ymddygiad a Gyflwynwyd i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC)** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Cynghori'r Pwyllgor am y cwynion a gyflwynwyd i OGCC ynglŷn â (a) Cynghorwyr Sir a (b) Cynghorwyr Tref a Chymuned lleol.** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Lisa Lord**<br>**Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol a Dirprwy Swyddog Monitro (Locwm)**<br>**lisalord@ynysmon.llyw.cymru** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Lynn Ball**<br>**Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro,**<br>**lbxcs@ynysmon.llyw.cymru** |

## 1. CYFLWYNIAD

Mae'r Pwyllgor Safonau yn derbyn diweddariad pob chwarter am y cwynion a gyflwynwyd i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) ynglyn â (a) Cynghorwyr Sir a (b) Cynghorwyr Tref / Cymuned.

## 2. DIWEDDARIADAU

2.1 Mae copi o'r adroddiad ar gyfer Chwarter 1, Chwarter 2 a Chwarter 3 2025/26 yn gysylltiedig â Chynghorwyr Sir ar gael yn Atodiad 1, 2 a 3.

2.2 Mae copi o'r adroddiad ar gyfer Chwarter 1, Chwarter 2 a Chwarter 3 2025/26 yn gysylltiedig â Chynghorwyr Tref a Chymuned ar gael yn Atodiad 4, 5 a 6.

## 3. CYNGHORWYR SIR:

3.1 Mae OGCC yn ymchwilio i un achos yn ymwneud â Chynghorydd Sir ar hyn o bryd; derbyniwyd y gŵyn ym mis Chwefror 2024.

## 4. CYNGHORWYR TREF A CHYMUNED:

4.1 Mae dau fater ar y gweill yn gysylltiedig â Chynghorwyr Tref a Chymuned; derbyniwyd y ddau gŵyn yn ystod chwarter 3.

## 5. ARGYMHELLIAD

5.1 Bod aelodau'r Pwyllgor Safonau'n nodi cynnwys **Atodiadau 1-6**.

**ATODIADAU:**

| | |
|---|---|
| 1 | Adroddiad ar gwynion ar gyfer Chwarter 1 2025/2026 yn gysylltiedig â Chynghorwyr Sir. |
| 2 | Adroddiad ar gwynion ar gyfer Chwarter 2 2025/2026 yn gysylltiedig â Chynghorwyr Sir. |
| 3 | Adroddiad ar gwynion ar gyfer Chwarter 3 2025/2026 yn gysylltiedig â Chynghorwyr Sir. |
| 4 | Adroddiad ar gwynion ar gyfer Chwarter 1 2025/2026 yn gysylltiedig â Chynghorwyr Tref a Chymuned. |
| 5 | Adroddiad ar gwynion ar gyfer Chwarter 2 2025/2026 yn gysylltiedig â Chynghorwyr Tref a Chymuned. |
| 6 | Adroddiad ar gwynion ar gyfer Chwarter 3 2025/2026 yn gysylltiedig â Chynghorwyr Tref a Chymuned. |

# CWYNION A GYFLWYNWYD I'R OMBWDSMON – "O" – AC YMCHWILIADAU A WNAED GANDDO YNGHYLCH CYNGHORWYR CYNGOR SIR YNYS MÔN - DIWEDDARIAD

# UP TO DATE COMPLAINTS TO AND INVESTIGATIONS BY THE OMBUDSMAN – "O" -REGARDING ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCILLORS – UPDATE

**Chwarter 1 (Ebrill – Mehefin 2025) – 2025/2026 – Quarter 1 (April – June 2025)**



| **Enw'r Cynghorydd**<br><br>**Name of Councillor** | **Enw'r Achwynydd**<br><br>**Name of Complainant** | **Cyfeirnod y Ffeil**<br><br>**File Reference**<br><br>**(i) Un ni/Ours**<br>**(ii) "O"** | **Dyddiad y Gŵyn - "O"**<br><br>**Complaint date - "O"** | **Canlyniad Ymholiad "O" a'r dyddiad neu'r sefyllfa gyfredol**<br><br>**Result of "O" Investigation and date or the current situation** |
|---|---|---|---|---|
| **Cynghorydd Sir / County Councillor** | Aelod / Member | 024922<br>202302251 | Gohebiaeth gyntaf gan O / First correspondence received from O: 09.08.2023 | O wedi anfon ei adroddiad at sylw'r Pwyllgor Safonau a chynhaliwyd gwrandawiad lleol ar 16.05.2025 /<br>O has sent its report for the attention of the Standards Committee and a local hearing was held on 16.05.2025 |
| **Cynghorydd Sir / County Councillor** | Aelod / Member | 025515<br>202307670 | Gohebiaeth gyntaf gan O / First correspondence received from O: 08.02.2024 | O yn parhau i ymchwilio'r gŵyn / O is continuing to investigate the complaint |

# CWYNION A GYFLWYNWYD I'R OMBWDSMON – "O" – AC YMCHWILIADAU A WNAED GANDDO YNGHYLCH CYNGHORWYR CYNGOR SIR YNYS MÔN - DIWEDDARIAD

# UP TO DATE COMPLAINTS TO AND INVESTIGATIONS BY THE OMBUDSMAN – "O" -REGARDING ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCILLORS – UPDATE

## Chwarter 2 (Gorffennaf – Medi 2025) – 2025/2026 – Quarter 2 (July – September 2025)



| **Enw'r Cynghorydd**<br><br>**Name of Councillor** | **Enw'r Achwynydd**<br><br>**Name of Complainant** | **Cyfeirnod y Ffeil**<br><br>**File Reference**<br><br>**(i) Un ni/Ours**<br>**(ii) "O"** | **Dyddiad y Gŵyn - "O"**<br><br>**Complaint date - "O"** | **Canlyniad Ymholiad "O" a'r dyddiad neu'r sefyllfa gyfredol**<br><br>**Result of "O" Investigation and date or the current situation** |
|---|---|---|---|---|
| **Cynghorydd Sir / County Councillor** | Aelod / Member | 025515<br>202307670 | Gohebiaeth gyntaf gan O / First correspondence received from O: 08.02.2024 | O yn parhau i ymchwilio'r gŵyn / O is continuing to investigate the complaint |

# CWYNION A GYFLWYNWYD I'R OMBWDSMON – "O" – AC YMCHWILIADAU A WNAED GANDDO YNGHYLCH CYNGHORWYR CYNGOR SIR YNYS MÔN - DIWEDDARIAD

# UP TO DATE COMPLAINTS TO AND INVESTIGATIONS BY THE OMBUDSMAN – "O" -REGARDING ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCILLORS – UPDATE

**Chwarter 3 (Hydref– Rhagfyr 2025) – 2025/2026 – Quarter 2 (October – December 2025)**

| **Enw'r Cynghorydd**<br><br>**Name of Councillor** | **Enw'r Achwynydd**<br><br>**Name of Complainant** | **Cyfeirnod y Ffeil**<br><br>**File Reference**<br><br>**(i) Un ni/Ours**<br>**(ii) "O"** | **Dyddiad y Gŵyn - "O"**<br><br>**Complaint date - "O"** | **Canlyniad Ymholiad "O" a'r dyddiad neu'r sefyllfa gyfredol**<br><br>**Result of "O" Investigation and date or the current situation** |
|---|---|---|---|---|
| **Cynghorydd Sir / County Councillor** | Aelod / Member | 025515<br>202307670 | Gohebiaeth gyntaf gan O / First correspondence received from O: 08.02.2024 | O yn parhau i ymchwilio'r gŵyn / O is continuing to investigate the complaint |

## CWYNION A GYFLWYNWYD I'R OMBWDSMON – "O" – AC YMCHWILIADAU A WNAED GANDDO YNGHYLCH CYNGHORWYR CYMUNEDOL A THREF - DIWEDDARIAD

## UP TO DATE COMPLAINTS TO AND INVESTIGATIONS BY THE OMBUDSMAN – "O" - REGARDING TOWN AND COMMUNITY COUNCILLORS – UPDATE

**Chwarter 1 (Ebrill - Mehefin 2025) – 2025/2026 – Quarter 1 (April – June 2025)**



| **Enw'r Cynghorydd**<br><br>**Name of Councillor** | **Enw'r Achwynydd**<br><br>**Name of Complainant** | **Cyfeirnod y Ffeil**<br><br>**File Reference**<br><br>**(i) Un ni/Ours**<br>**(ii) "O"** | **Dyddiad y Gŵyn - "O"**<br><br>**Complaint date - "O"** | **Canlyniad Ymholiad "O" a'r dyddiad neu'r sefyllfa gyfredol**<br><br>**Result of "O" Investigation and date or the current situation** |
|---|---|---|---|---|
| Cynghorydd Cymuned / Community Councillor<br><br>Cyngor Cymuned A / Community Council A | Cynghorydd Cymuned / Community Councillor | 025514<br>202307045 | Gohebiaeth gyntaf gan O / First correspondence received from O: 07.02.2024 | O yn parhau i ymchwilio'r gŵyn / O is continuing to investigate the complaint |
| | | | | |

## CWYNION A GYFLWYNWYD I'R OMBWDSMON – "O" – AC YMCHWILIADAU A WNAED GANDDO YNGHYLCH CYNGHORWYR CYMUNEDOL A THREF - DIWEDDARIAD

## UP TO DATE COMPLAINTS TO AND INVESTIGATIONS BY THE OMBUDSMAN – "O" - REGARDING TOWN AND COMMUNITY COUNCILLORS – UPDATE

**Chwarter 2 (Gorffennaf - Medi 2025) – 2025/2026 – Quarter 2 (July – September 2025)**

| **Enw'r Cynghorydd**<br><br>**Name of Councillor** | **Enw'r Achwynydd**<br><br>**Name of Complainant** | **Cyfeirnod y Ffeil**<br><br>**File Reference**<br><br>**(i) Un ni/Ours**<br>**(ii) "O"** | **Dyddiad y Gŵyn - "O"**<br><br>**Complaint date - "O"** | **Canlyniad Ymholiad "O" a'r dyddiad neu'r sefyllfa gyfredol**<br><br>**Result of "O" Investigation and date or the current situation** |
|---|---|---|---|---|
| Cynghorydd Cymuned / Community Councillor<br><br>Cyngor Cymuned A / Community Council A | Cynghorydd Cymuned / Community Councillor | 025514<br>202307045 | Gohebiaeth gyntaf gan O / First correspondence received from O: 07.02.2024 | Penderfyniad O wedi'i dderbyn 04.08.2025 - dim tystiolaeth sy'n awgrymu torri'r Cod; nid oes angen cymryd camau pellach<br>O decision received 04.08.2025 - no evidence suggestive of beaches of the Code; no further action is required |
| Cynghorydd Tref / Town Councillor<br><br>Cyngor Tref / Town Council | Aelod o'r Cyhoedd Member of the Public | 27031<br>0202503858 | Gohebiaeth gyntaf gan O / First correspondence received from O: 05.08.2025 | Penderfyniad O wedi ei dderbyn 18.09.2025 - ni ddylid ymchwilio i'r Gŵyn<br>O decision received 18.09.2025 - the Complaint should not be investigated |
| Cynghorydd Tref / Town Councillor<br><br>Cyngor Tref / Town Council | Cynghorydd Tref Town Councillor | 27070<br>0202501390 | Gohebiaeth gyntaf gan O / First correspondence received from O: 21.08.2025 | Penderfyniad wedi ei dderbyn 18.09.2025 - ni ddylid ymchwilio i'r Gŵyn<br>O decision received 25.09.2025 - the Complaint should not be investigated |

## CWYNION A GYFLWYNWYD I'R OMBWDSMON – "O" – AC YMCHWILIADAU A WNAED GANDDO YNGHYLCH CYNGHORWYR CYMUNEDOL A THREF - DIWEDDARIAD

## UP TO DATE COMPLAINTS TO AND INVESTIGATIONS BY THE OMBUDSMAN – "O" - REGARDING TOWN AND COMMUNITY COUNCILLORS – UPDATE

### Chwarter 3 (Hydref- Rhagfyr 2025) – 2025/2026 – Quarter 3 (October - December 2025)



| **Enw'r Cynghorydd**<br><br>**Name of Councillor** | **Enw'r Achwynydd**<br><br>**Name of Complainant** | **Cyfeirnod y Ffeil**<br><br>**File Reference**<br><br>**(i) Un ni/Ours**<br>**(ii) "O"** | **Dyddiad y Gŵyn - "O"**<br><br>**Complaint date - "O"** | **Canlyniad Ymholiad "O" a'r dyddiad neu'r sefyllfa gyfredol**<br><br>**Result of "O" Investigation and date or the current situation** |
|---|---|---|---|---|
| Cynghorydd Tref / Town Councillor<br><br>Cyngor Tref / Town Council | Cynghorydd/ Councillor | 27242<br>202507077 | Gohebiaeth gyntaf gan O / First correspondence received from O: 14.11.2025 | Ystyriaeth gychwynnol O yn parhau<br>O initial consideration ongoing |
| Cynghorydd Tref / Town Councillor<br><br>Cyngor Tref / Town Council | Aelod o'r Cyhoedd<br>Member of the Public | 202507247 | Gohebiaeth gyntaf gan O / First correspondence received from O: 26.11.2025 | Ystyriaeth gychwynnol O yn parhau<br>O initial consideration ongoing |
| Cynghorydd Tref / Town Councillor<br>Cyngor Tref / Town Council | Cynghorydd/ Councillor | 202507944 | Gohebiaeth gyntaf gan O / First correspondence received from O: 19.12.2025 | Ystyriaeth gychwynnol O yn parhau<br>O initial consideration ongoing |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN / ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD:** | **22 Ionawr 2026** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Penderfyniadau cyhoeddus ar gyfer holl Gynghorau Cymru gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Cynghori'r Pwyllgor am benderfyniadau Cymru gyfan a gyhoeddwyd ar wefan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Mehefin 2025 a 31 Rhagfyr 2025.** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Lisa Lord**<br>**Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol a Dirprwy Swyddog Monitro (Locwm)**<br>**lisalord@ynysmon.llyw.cymru** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Lynn Ball**<br>**Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro**<br>**lbxcs@ynysmon.llyw.cymru** |

## 1. CYFLWYNIAD

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb o'r wybodaeth a gyhoeddwyd o dan y pennawd "Ein Canfyddiadau" ar wefan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) ar gyfer y misoedd Mehefin 2025 i Ragfyr 2025 yn gysylltiedig â materion Cod Ymddygiad yn unig **ATODIAD 1**.

## 2. NEWYDDLEN CHWARTEROL

| Rhifyn | Dyddiadau | Dolen |
|---|---|---|
| 7 | Ebrill - Mehefin | Yma |
| 8 | Gorffennaf - Medi | Yma |

## 3. ADRODDIAD BLYNYDDOL

Mae OGCC wedi cyhoeddi ei Adroddiad Blynyddol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025.

Tynnir sylw'r Pwyllgor at y pwyntiau allweddol a ganlyn yn yr Adroddiad Blynyddol.

- Rhwng Ebrill 2024 - Mawrth 2025 derbyniodd OGCC 315 o gwynion Cod Ymddygiad a wnaed yn briodol - 4% yn llai na’r llynedd ond 36% yn fwy nac yn 2019-20.
- Yn gyffredinol, cwynion cynghorau tref a chynghorau cymuned yw'r grŵp mwyaf o'u cwynion Cod Ymddygiad, gyda chynnydd o 7% yn y cwynion hyn o'i gymharu â'r llynedd.
- Roedd mwyafrif (56%) y cwynion yn ymwneud â hyrwyddo cydraddoldeb a pharch – bron yr un gyfran â’r llynedd.
- Ymchwiliodd OGCC i 49 (tua 15%) o gwynion Cod Ymddygiad a gaewyd yn 2024/2025 - yr un faint â’r llynedd.
- Cyfeiriwyd 15 o achosion Cod Ymddygiad naill ai at y Pwyllgor Safonau perthnasol neu Banel Dyfarnu Cymru.

## 4. ARGYMHELLIAD

Bod Cadeirydd y Pwyllgor Safonau’n arwain trafodaeth ar unrhyw faterion sydd o ddiddordeb yn **ATODIAD 1**.

**ATODIADAU:**

| | |
|---|---|
| 1 | Crynodeb o’r wybodaeth a gyhoeddwyd o dan y pennawd “Ein Canfyddiadau” ar wefan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) ar gyfer y misoedd Mehefin 2025 hyd at ddiwedd Rhagfyr 2025 yn gysylltiedig â materion Cod Ymddygiad yn unig. |
| 2 | Crynodeb o bwerau OGCC yn gysylltiedig a chwynion Cod Ymddygiad. |

**ATODIAD 1 – CRYNODEB O BWERAU**

Mae OGCC yn gweithredu pwerau "sifft gyntaf" dan Adran 69 Deddf Llywodraeth Leol 2000, sy'n gosod dyletswydd ar OGCC i ystyried cwynion y gallai aelodau awdurdodau lleol yng Nghymru fod wedi torri eu cod ymddygiad. Mae awdurdodaeth OGCC yn cynnwys cynghorau sir a chynghorau tref a chymuned.

Ar ôl derbyn cwyn, mae OGCC yn gweithredu prawf trothwy er mwyn gweld a ddylid ymchwilio i'r gŵyn ai peidio. Mae'r prawf trothwy yn cynnwys OGCC yn bodloni:

- Bod tystiolaeth i awgrymu y gallai'r cod ymddygiad fod wedi cael ei dorri; a
- Bod y mater yn ddigon difrifol fel ei fod o fudd i'r cyhoedd bod ymchwiliad yn cael ei agor.

Yn dilyn agor ymchwiliad, gallai OGCC ddod i un o bedwar canlyniad o dan Adran 69 Deddf Llywodraeth Leol 2000 sef:

(1) Nad oes unrhyw dystiolaeth bod cod ymddygiad yr awdurdod wedi cael ei dorri;

(2) Nad oes angen cymryd unrhyw gamau pellach mewn perthynas â'r materion a oedd yn destun yr ymchwiliad;

(3) Y dylid cyfeirio'r mater at swyddog monitro'r awdurdod ar gyfer ystyriaeth y pwyllgor safonau; neu

(4) Bod y mater yn cael ei gyfeirio at Lywydd Panel Dyfarnu Cymru ar gyfer penderfyniad drwy dribiwnlys (bydd hyn yn digwydd mewn achosion mwy difrifol fel arfer).

Os yw (3) neu (4) uchod yn berthnasol, bydd OGCC yn cyflwyno ei adroddiad i'r Pwyllgor Safonau lleol neu Banel Dyfarnu Cymru (PDC) a lle'r pwyllgor, neu dribiwnlys achos ar ran PDC, yw cynnal gwrandawiad er mwyn ystyried y dystiolaeth a gwneud penderfyniad terfynol ynghylch p'un a gafodd y cod ymddygiad ei dorri ai peidio, ac os hynny, a ddylid rhoi cosb a beth ddylid ei roi fel cosb.

Mae gan bwyllgorau safonau awdurdod statudol i wahardd cynghorwyr am gyfnodau o hyd at 6 mis.  Does gan bwyllgorau safonau ddim pwerau anghymhwyso, a lle bydd canfyddiadau o dorri rheolau, byddant yn ceisio rhoi cosb sy'n briodol ar gyfer y drosedd. Bydd hyn yn aml iawn yn gerydd (cerydd cyhoeddus) neu'n argymhelliad o hyfforddiant/ymrwymiad/cyfryngu ayb.

Mae gan dribiwnlys achos yr awdurdod i wahardd cynghorydd am hyd at 12 mis ac anghymhwyso am hyd at 5 mlynedd.

## ATODIAD 2

| Manylion am yr achos | Prif Ffeithiau | Prif Ganfyddiadau | Gwersi a Ddysgwyd |
|---|---|---|---|
| 202406856<br><br>Cyngor Cymuned Gwersyllt<br><br><br>Hyrwyddo cydraddoldeb a pharch: Cyngor Cymuned Gwersyllt - Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru<br><br>Hyrwyddo cydraddoldeb a pharch | Honnwyd bod Aelod, yn ystod cyfarfod o'r Cyngor, wedi bwlio a brawychu un o weithwyr y Cyngor a bod ei ymddygiad wedi rhoi pwysau ar y Gweithiwr i ddatgelu gwybodaeth bersonol. | Dim tystiolaeth o fethiant i gydymffurfio â'r cod<br><br>Roedd y dystiolaeth yn awgrymu:<br><br>Y bu trafodaeth **llawn tensiwn a chadarn** rhwng yr Aelod a'r Gweithiwr a bod y Gweithiwr wedi datgelu gwybodaeth bersonol.<br><br>Ar y cyfan, ystyriwyd nad oedd sylwadau neu agwedd yr Aelod mor ymfflamychol, amharchus neu eithriadol fel ei fod wedi torri unrhyw agwedd ar y Cod. | Mae canfyddiadau achosion o'r fath yn dibynnol ar y ffeithiau, fodd bynnag nodir bod y Cod yn caniatáu trafodaeth gadarn rhwng Aelodau a Swyddogion. |
| 202401984<br><br>Cyngor Sir y Fflint<br><br>Gwrthrychedd a phriodoldeb: Cyngor Sir y Fflint - Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru | Honnwyd bod yr Aelod wedi datgelu gwybodaeth gyfrinachol ynglŷn â'r Achwynydd gyda'i chymdogion pan oedd wedi ceisio datrys eu pryderon. | Ni fu'n rhaid cymryd unrhyw gamau.<br><br>Roedd y dystiolaeth yn dangos:<br><br>bod ymddygiad yr Aelod yn awgrymu bod y cod wedi cael ei dorri.<br><br>bod yr Aelod wedi **ymddiheuro'n ddiffuant ar unwaith, cydnabod na ddylai fod wedi datgelu'r** | Roedd yr ymddiheuriad cynnar a diffuant a'r ffaith bod yr aelod wedi meddwl am yr hyn a wnaeth yn bethau cadarnhaol ym marn yr Ombwdsmon. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gwrthrychedd a phriodoldeb | | **wybodaeth a darparu sicrwydd** na fyddai'r un peth yn digwydd eto.<br><br>Roedd yr aelod wedi derbyn, a myfyrio ar y trallod yr oedd wedi'i achosi i'r Achwynydd, ac roedd yn **edifar** am hynny. | |
| 202207114<br><br>Cyngor Cymuned Abertyleri a Llanhiledd<br><br>[Hyrwyddo cydraddoldeb a pharch: Cyngor Cymuned Abertyleri a Llanhiledd - Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru]<br><br>Hyrwyddo cydraddoldeb a pharch | Honnwyd bod yr Aelod wedi bwlio ac aflonyddu swyddogion o'r Cyngor drwy:<br>• Wneud cwynion ffug, di-sail a maleisus yn erbyn y swyddogion;<br>• Gwneud datganiadau ffug yn ystod cyfarfodydd o'r Cyngor ac mewn e-byst a anfonwyd a dogfennau a rannwyd, yn rhinwedd ei rôl fel aelod;<br>• Camddefnyddio ei swydd i gael mynediad at wybodaeth bersonol a dogfennau.<br>Honnwyd hefyd bod yr Aelod wedi:<br>• Datgelu gwybodaeth gyfrinachol i aelodau'r Cyngor a'r cyhoedd; ac<br>• Nad oedd wedi datgan buddiannau personol a rhagfarnus yng nghyfarfodydd y Cyngor. | Yn hanesyddol, mae gan y Cyngor hanes gwael o reoli ei gyllid (yn ôl Archwilio Cymru)<br><br>Nid oedd y **cyd-destun yn cyfiawnhau'r** ffordd y dewisodd yr Aelod fynegi ei bryderon, fodd bynnag roedd ganddo'r hawl i godi pryderon o fewn ffiniau eang ei hawl **i ryddid mynegiant**.<br><br>Penderfynwyd **na fyddai** unrhyw gamau pellach er **budd y cyhoedd** oherwydd<br><br>▪ dim hanes blaenorol o faterion Safonau<br>▪ y cyfnod o amser a oedd wedi mynd heibio ers y digwyddiad<br>▪ amgylchiadau personol yr Aelod | Mae canfyddiadau achosion o'r fath yn dibynnol ar y ffeithiau. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 202309676<br><br>Cyngor Tref Hendy-gwyn ar Daf<br><br>Hyrwyddo cydraddoldeb a pharch: Cyngor Tref Hendy-gwyn ar Daf - Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru<br><br>Hyrwyddo cydraddoldeb a pharch | Honnwyd bod yr Aelod, yn rhinwedd ei swydd swyddogol, wedi mynd i weithle'r Achwynydd ac achosi trallod sylweddol i'r Achwynydd a'r cyflogwyr. | Gan ystyried dymuniadau'r Achwynydd a'r wybodaeth a gafwyd yn ystod yr ymchwiliad, gan gynnwys penderfyniad yr heddlu nad oeddent yn gallu bwrw ymlaen ag ymholiadau, o dan Adran 70 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, penderfynodd yr Ombwdsmon na fyddai parhau â'r ymchwiliad er budd y cyhoedd. Felly, daethpwyd â'r ymchwiliad i ben. | Mae canfyddiadau achosion o'r fath yn dibynnol ar y ffeithiau. |
| 202404604<br><br>Cyngor Caerdydd<br><br>Uniondeb : Cyngor Caerdydd - Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru<br><br>Uniondeb | Honnwyd bod yr Aelod wedi cynnwys enwau ei chyd gynghorwyr ward mewn llythyr at bwyllgor trwyddedu'r Cyngor yn gwrthwynebu cais gan fusnes tecawê lleol i ymestyn ei oriau agor, heb ofyn am eu caniatâd ymlaen llaw. Roedd yr Achwynydd yn honni bod yr Aelod wedi ymddwyn yn anonest, er mwyn rhoi mwy o hygrededd i'r llythyr gwrthwynebu. | Darparwyd **tystiolaeth ar pryd** bod yr Aelod wedi trafod gyda'i chyd gynghorwyr a ddylid gwrthwynebu'r cais cyn anfon y llythyr gwrthwynebu.<br><br>Nid oedd tystiolaeth bod y Cod wedi cael ei dorri. | Mae canfyddiadau achosion o'r fath yn dibynnol ar y ffeithiau.<br><br>Defnyddiwyd cofnodion ar y pryd fel tystiolaeth i ddangos y camau a gymerwyd gan yr Aelod i gyflwyno'r gwrthwynebiad. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 202403830/202402823<br><br>Cyngor Sir Powys a Chyngor Tref y Trallwng<br><br>Hyrwyddo cydraddoldeb a pharch: Cyngor Sir Powys a Chyngor Tref y Trallwng - Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru<br><br>Hyrwyddo cydraddoldeb a pharch | Honnwyd bod yr Aelod, yn ystod un o ddigwyddiadau'r Cyngor Sir, wedi siarad yn sarhaus am yr Achwynydd, a oedd yn cael ei chyflogi gan y Cyngor Tref, gan honni ei bod yn un ddiog a ddim yn gallu gwneud ei gwaith yn iawn. | Daeth OGCC i'r casgliad bod yr Aelod, yn fwy tebygol na pheidio, wedi gwneud sylw/sylwadau y gellid yn rhesymol eu dehongli fel rhai beirniadol o'r Achwynydd.<br><br>Nid ystyriwyd ei bod yn gymesur nac er budd y cyhoedd cymryd camau pellach | Mae canfyddiadau achosion o'r fath yn dibynnol ar y ffeithiau.<br><br>Er na chymerwyd unrhyw gamau ffurfiol yn yr achos hwn, atgoffwyd yr Aelod o bwysigrwydd cynnal perthynas barchus rhwng aelodau a swyddogion, a sut y gellir dehongli sylwadau. |
| 202501464<br><br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf<br><br>Datgelu a chofrestru buddiannau : Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf - | Siaradodd yr Aelod mewn Pwyllgor Cynllunio o blaid rhoi Tystysgrif Defnydd neu Ddatblygiad Cyfreithlon i newid tafarn yn siop.<br><br>Roedd yr Aelod yn arfer bod yn Gadeirydd clwb cymdeithasol (a oedd mewn cystadleuaeth uniongyrchol â'r Dafarn) yn yr un ardal, ond roedd wedi cael ei ddisodli fel Cadeirydd fis cyn y | Roedd yr Aelod yn gallu profi bod ei **fuddiant ei hun yn y Clwb wedi dod i ben**.<br><br>Roedd y ffaith bod ei wraig yn cael ei chyflogi gan y Clwb yn **fuddiant personol posib**, ond nid oedd yn ddigon sylweddol i gael ei ystyried yn fuddiant rhagfarnus. | Mae'n bwysig bod Aelodau'n ystyried buddiannau ariannol y bobl sy'n byw ar yr un aelwyd â hwy, neu unrhyw un y mae ganddynt gysylltiad personol â hwy.<br><br>Mae'n bwysig bod Aelodau'n cofio diweddaru eu Cofrestr Buddiannau yn gyson. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| [Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru]<br><br>Datgelu a chofrestru buddiannau | cyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio.  Roedd yr Aelod wedi diweddaru ei gofnod ar Gofrestru Buddiannau'r Cyngor ar 11 Ebrill i adlewyrchu'r ffaith nad oedd ganddo fudd yn y clwb cymdeithasol mwyach.<br><br>Roedd gwraig yr Aelod yn cael ei chyflogi fel ysgrifenydd y clwb cymdeithasol.<br><br>Teimlai'r Achwynydd fod y cysylltiadau hyn yn fuddiant personol a rhagfarnus, felly dylai'r Aelod fod wedi datgan hyn ac wedi dilyn y Cod mewn perthynas â'i gyfranogiad yn y cyfarfod. | Fe ddylai'r Aelod **fod wedi datgan** y buddiant personol hwn; roedd hyn yn **achos posib** o dorri'r Cod.<br><br>Roedd dylanwad yr Aelod wedi'i gyfyngu i'w araith gan **nad oedd yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio**, ac roedd ganddo hawl i wneud yr araith honno.<br><br>**Gan mai tor-amod bach oedd hwn** a chan nad oedd effaith niweidiol, penderfynodd yr Ombwdsmon **nad oedd angen** cymryd unrhyw gamau pellach. | |
| 202310248<br><br>Cyngor Sir Ddinbych<br><br>[Hyrwyddo cydraddoldeb a pharch: Cyngor Sir Ddinbych - Ombwdsmon] | Honnwyd bod yr Aelod wedi gwneud sylwadau gwahaniaethol am bobl o'r gymuned Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn ystod sesiwn hyfforddi i'r Cyngor.   Hefyd, honnwyd bod yr Aelod wedi gwneud sylwadau o natur wahaniaethol am recriwtio merched i'r sector gofal, yn ystod cyfarfod o Bwyllgor y Cyngor. | Barnwyd bod sylwadau'r Aelod yn **fynegiant gwleidyddol** a bod sylwadau o'r fath wedi'u gwarchod o dan **Erthygl 10 (rhyddid mynegiant)**.<br><br>**Nid oedd y dystiolaeth** yn dangos bod yr Aelod wedi gwneud y sylwadau gwahaniaethol tuag at bobl o'r gymuned Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn fwriadol; a byddai | Dim camau pellach |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gwasanaethu Cyhoeddus Cymru<br><br>Hyrwyddo cydraddoldeb a pharch | | unrhyw ganfyddiad o dorri'r cod yn anghymesur.<br><br>Nid oedd yr Ombwdsmon yn **goddef y fath ymddygiad** ac awgrymodd y dylai'r Aelod ymddiheuro.<br><br>O ran yr ail ddigwyddiad, nodwyd bod y sylwadau'n amhriodol ac y **gellid ystyried eu bod yn wahaniaethol**, ac y gallai'r sylw eang yn y cyfryngau ddwyn anfri ar yr Aelod, yn bersonol.<br><br>Cafodd yr Aelod ei **herio ar unwaith**, mynegodd edifeirwch ac ymddiheuro am yr hyn a ddywedodd, ac ymrwymodd i beidio ag ymddwyn yn y fath fodd eto.<br><br>Ystyriwyd **na fyddai** camau pellach yn gymesur nac er budd y cyhoedd, fodd bynnag, argymhellwyd y dylai'r Aelod **ymddiheuro'n ffurfiol, ac ar goedd**, am ei sylwadau. | |
| 202404346<br><br>Cyngor Cymuned Cwm Ogwr | Honnwyd bod yr Aelod wedi gweithredu ar ran y Cyngor heb gymeradwyaeth na chydsyniad wrth | Nid oedd unrhyw golled ariannol; **ni chafodd arian y grant ei ryddhau**, ac **nid oedd y Cyngor wedi ymrwymo** i unrhyw gytundeb. | Mae'n bwysig bod aelodau'n deall y Rheolau Sefydlog a threfniadau llywodraethu. Dylai aelodau ofyn am gyngor |

| | | | |
|---|---|---|---|
| [Atebolrwydd a bod yn agored : Cyngor Cymuned Cwm Ogwr - Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru]<br><br>Atebolrwydd a bod yn agored : | fwrw ymlaen â chais am gyllid grant. | Roedd yr Aelod yn **amhrofiadol**, **nid oedd wedi cael hyfforddiant ar y cod ymddygiad**, ac roedd **amgylchiadau lliniarol personol**. Nid oedd unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod yr Aelod wedi cael **budd personol**, nac wedi ceisio cael budd.<br><br>Ar ôl pwyso a mesur y ffactorau perthnasol er budd y cyhoedd, nid oedd yr Ombwdsmon o'r farn ei bod yn gymesur, nac er budd y cyhoedd, i gymryd unrhyw gamau pellach.<br><br>**Argymhellion**<br><br>Dylai'r Aelod **ymgyfarwyddo â Rheolau Sefydlog a threfniadau llywodraethiant**.<br><br>Cwblhau **hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad**. | os oes ganddynt unrhyw amheuaeth ynglŷn â'u rôl. |
| 202401052<br><br>Cyngor Cymuned Pentir | Honnwyd bod yr Aelod yn amharod i ganiatáu i'r Achwynydd (sydd hefyd yn aelod o'r Cyngor Cymuned) ymgysylltu â Chwmni Dylunio Gwefannau allanol a | Cymraeg yw iaith swyddogol y Cyngor ac iaith ei weinyddiaeth fewnol; roedd y penderfyniad wedi'i wneud yn unol â'i Bolisi Iaith Gymraeg. | Mae canfyddiadau achosion o'r fath yn dibynnol ar y ffeithiau. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Hyrwyddo cydraddoldeb a pharch: Cyngor Cymuned Pentir - Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru<br><br>Hyrwyddo cydraddoldeb a pharch | dywedodd "because you're not Welsh" oedd y rheswm am hynny. | Roedd yr Aelod yn derbyn ei bod wedi dweud "because you're not Welsh" ond esboniodd mai'r hyn yr oedd hi'n bwriadu ei ddweud oedd "because you're not Welsh speaking".<br><br>O ystyried y cyd-destun ystyriwyd bod dewis o eiriau yn **llithriad tafod trwsgl** yn hytrach nag yn faleisus.<br><br>Daethpwyd i'r casgliad **nad oedd tystiolaeth o fethiant i gydymffurfio â'r Cod**. | |
| 202205610<br><br>Cyngor Gwynedd<br><br>Uniondeb : Cyngor Gwynedd - Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru<br><br>Uniondeb | Honnwyd bod yr Aelod wedi torri'r Cod Ymddygiad wrth wneud sylwadau mewn perthynas â'r cwricwlwm Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (ACRh).<br><br>Honnwyd bod sylwadau wedi cael eu gwneud i achosi sioc a dicter, yn hytrach nag i hysbysu'r cyhoedd yn onest, ei bod wedi methu dangos parch ac ystyriaeth a bod yr Aelod wedi methu â pharchu arweiniad y Swyddog Monitro i beidio â thorri'r Cod Ymddygiad. | Nid oedd y rhan fwyaf o sylwadau'r Aelod yn mynd y tu hwnt i'r terfynau a roddwyd iddi gan ei hawl i **ryddid mynegiant** o dan Erthygl 10.<br><br>Roedd un sylw'n cael ei ystyried yn **annerbyniol**, ac fe wnaeth yr Aelod gydnabod nad oedd ganddi unrhyw dystiolaeth i gefnogi'r sylw hwn.<br><br>Oni bai am ymyriadau amserol a chyngor clir gan y Cadeirydd a'r Swyddog Monitro, gallai'r canlyniad fod wedi bod yn wahanol. | Llwyddwyd i osgoi digwyddiad mwy difrifol oherwydd bod y Cadeirydd wedi ymyrryd.<br><br>Mae'n bwysig bod Aelodau'n deall y cydbwysedd rhwng y Cod ymddygiad ac Erthygl 10. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Fe wnaeth yr Aelod fyfyrio ar y mater; penderfynodd yr Ombwdsmon **nad oedd angen cymryd unrhyw gamau pellach**. | |
| 202305850<br>202305851<br>202305852<br><br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam<br><br>Dyletswydd i gynnal y gyfraith : Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam - Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru<br><br>Dyletswydd i gynnal y gyfraith : | Honnodd yr Achwynydd, a oedd â rôl lywodraethu gyda Chyngor Sir Wrecsam ("y Cyngor"), fod 3 aelod o'r Cyngor ("y 3 Aelod"), a oedd i gyd yn brofiadol iawn ac yn arweinyddion eu Grwpiau Gwleidyddol eu hunain, wedi torri'r Cod Ymddygiad ("y Cod"), drwy ddwyn achos cyfreithiol gyda'i gilydd yn enw'r Cyngor (a adwaenir fel "JR2"). Ceisiodd JR2 herio penderfyniad y Llys fod rhwymedigaeth ar y Cyngor i fabwysiadu ei Gynllun Datblygu Lleol ("CDLl") drafft. Honnwyd hefyd fod un o'r 3 Aelod wedi defnyddio cyfrif e-bost y Cyngor i ddiben answyddogol. Roedd yr ymchwiliad wedi ystyried a oedd paragraffau 6(1)(a) (dwyn anfri), 7(a) (defnyddio neu geisio defnyddio eu safle'n amhriodol) neu 7(b) (camddefnyddio adnoddau'r Cyngor) o'r Cod wedi'u torri. | **Nid oedd** Cyfansoddiad y Cyngor yn rhoi pŵer penodol i'r 3 Aelod i ddwyn achos ar ran y Cyngor, a bod y pŵer hwn wedi'i ddirprwyo i'r Swyddog Monitro'n unig. Mae gweithredu y tu allan i drefniadau cyfansoddiadol y Cyngor yn ymddygiad y gellid yn rhesymol ei ystyried fel ymddygiad sy'n dwyn anfri ar swydd aelod neu'r Cyngor.<br><br>**Nid oedd** cyhoeddi JR2 wedi arwain at unrhyw **enillion personol** na defnydd uniongyrchol o adnoddau'r Cyngor; ac mai'r cymhelliad oedd cynnal a gwarchod penderfyniadau democrataidd.<br><br>Roedd un Aelod wedi **defnyddio cyfrif e-bost y Cyngor** i ddiben preifat neu wleidyddol yn anfwriadol.<br><br>O ganlyniad i benderfyniad mwy diweddar gan y Llys Apêl, roedd yr | Achos anarferol . |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | eglurder ar y safbwynt cyfreithiol a'r ffactorau budd y cyhoedd, wedi newid yn sylweddol yn ystod ein hymchwiliadau.<br><br>Roedd yr Aelodau wedi ymdrechu i gadarnhau barn ddemocrataidd aelodau'r Cyngor ac wedi gweithredu ar gyngor cyfreithiol; roedd y sefyllfa yn anarferol iawn ac yn ddigynsail.<br><br>Daeth yr Ombwdsmon i'r casgliad **nad oedd angen gweithredu ymhellach**, er budd y cyhoedd; roedd anfon yr e-bost yn fater dibwys ac yn anfwriadol. | |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN / ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD:** | **22 Ionawr 2026** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Penderfyniadau Panel Dyfarnu Cymru** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Cyflwyno gwybodaeth am y materion a ystyriwyd gan Banel Dyfarnu Cymru ac a gyhoeddwyd rhwng 1 Mehefin 2025 a Rhagfyr 2025** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Lisa Lord<br>Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol a Dirprwy Swyddog Monitro (Locwm)<br>lisalord@ynysmon.llyw.cymru** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Lynn Ball<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro<br>lbxcs@ynysmon.llyw.cymru** |

## 1. CYFLWYNIAD

Sefydlwyd Panel Dyfarnu Cymru (PDC) gan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000. Mae iddo ddwy swyddogaeth statudol:

1. Ffurfio tribiwnlysoedd achos, neu dribiwnlysoedd achos interim, i ystyried adroddiadau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) yn dilyn ymchwiliadau gan OGCC i honiadau bod aelod wedi methu â chydymffurfio â chod ymddygiad eu hawdurdod; ac

2. Ystyried apeliadau gan aelodau yn erbyn penderfyniadau pwyllgor safonau eu hawdurdod eu hunain eu bod wedi torri'r cod ymddygiad (yn ogystal â phenderfynu a roddir caniatâd i apelio yn y lle cyntaf).

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys penderfyniadau a gyhoeddwyd gan PDC yn ystod y cyfnod rhwng 1 Mehefin 2025 a Rhagfyr 2025. Bwriedir iddo fod yn grynodeb ffeithiol o'r materion a benderfynwyd gan PDC. Mae'r achosion a gofnodwyd ar gyfer y cyfnod perthnasol ar gael ar wefan PDC ar hyn o bryd ac mae dolenni ar gyfer yr achosion unigol wedi'u cynnwys isod.

Mae'n bwysig nodi fod yr achosion yn cynnwys gwybodaeth ffeithiol yn bennaf, ond mae unrhyw ddysgu wedi'i nodi lle bo hynny'n addas.

CC-022335/891002 (876924)

## 2. CRYNODEB O'R ACHOSION PERTHNASOL

Mae crynodeb o'r achosion perthnasol wedi'i gynnwys yn **ATODIAD 1**.

## 3. ARGYMHELLIAD

Nodi cynnwys y crynodebau achos.

**ATODIAD:**

| | |
|---|---|
| 1. | Crynodeb o'r achosion a gyhoeddwyd ar wefan Panel Dyfarnu Cymru (PDC) ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Mehefin 2025 a Rhagfyr 2025. |

**ATODIAD 1**

**Crynodeb o'r Achosion gerbron Panel Dyfarnu Cymru: Mehefin 2025 - Rhagfyr 2025**

| Manylion yr Achos | Prif Ffeithiau | Prif Ganfyddiadau / Canlyniad | Dysgu |
|---|---|---|---|
| **Enw:** Y Cynghorydd Ian Perry<br>**Rhif cyfeirnod:** APW/002/2024-025/AT<br>**Awdurdod perthnasol:** Cyngor Cymuned Sain Niclas a Thresimwn<br>**Natur yr honiad:** Torri paragraffau 4(b), 4(c) a 6(1)(a).<br><br>APW/002/2024-025/AT: Cynghorydd Ian Perry \| Panel Dyfarnu Cymru | Penderfynwyd nad oedd y **Pwyllgor Safonau wedi esbonio yn ei lythyr penderfyniad sut y bu iddo arfarnu tystiolaeth** ac **nid oedd wedi nodi rhesymau clir** i gefnogi ei benderfyniadau ac, fel y cyfryw, rhoddwyd caniatâd i fwrw ymlaen â'r apêl ar seiliau penodol.<br><br>Canfu'r Pwyllgor Safonau<br>▪ fod yr Aelod wedi torri paragraffau 4(b) a 4(c) o'r Cod<br>▪ fod e-bost a anfonwyd ar 5 Gorffennaf 2021 wedi'i fwriadu i godi ofn ar y Clerc<br>▪ roedd methu â darparu ymatebion neu wybodaeth briodol a'i dôn amddiffynnol yn dangos diffyg tryloywder | Canfuwyd nad oedd paragraffau 4(b), 4(c) a 6(1)(a) o God Ymddygiad y Cyngor wedi cael eu torri. **Gwrth-drowyd penderfyniad y Pwyllgor Safonau** fod yr Apelydd wedi torri'r paragraffau uchod.<br><br>Canfu'r Tribiwnlys<br>▪ bod geiriad yr e-bost ar 5 Gorffennaf 2025 yn **gyson â sgwrs barhaus** rhwng yr Apelydd a'r cyn Glerc Locwm, oedd yn adrodd hanes profiad anodd o'r gorffennol yn ymwneud â chyn glerc, a mater mewn perthynas â'r cyn Swyddog Monitro. Nid oedd yn gyson â'r syniad ei fod yn rybudd neu'n awgrym o fygythiad yn erbyn Clerc profiadol oedd yn cael ei gwerthfawrogi, | Er mwyn osgoi amheuaeth, **cadarnhaodd y Tribiwnlys Apêl nad yw Rheoliad 9(1) o Reoliadau 2001 yn cynnwys pŵer i'r Pwyllgor Safonau osod gofyniad ar aelod i dderbyn hyfforddiant fel rhan o gosb yn dilyn canfyddiad fod y Cod wedi cael ei dorri.** Mae'r Rheoliad yn nodi'r pedwar penderfyniad sydd ar gael i'r Pwyllgor Safonau, ac nid yw gorchymyn fod aelod yn mynychu hyfforddiant yn un o'r penderfyniadau sydd ar gael i'r Pwyllgor. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | yn y modd yr oedd yn ymdrin â cheisiadau am wybodaeth gan aelodau, ac roedd hynny gyfystyr â thorri paragraff 6(1)(a) o'r Cod. | nac yn ymgais i fygwth, aflonyddu na bwlio'r Clerc.<br><br>▪ o dan yr holl amgylchiadau, barn y Tribiwnlys oedd nad oedd yn rhesymol ystyried bod 'tôn amddiffynnol' yr Aelod, neu ei 'ddiffyg tryloywder', fel y nodwyd gan y Pwyllgor Safonau fel rhesymau dros ei benderfyniad, yn dwyn anfri ar swydd neu awdurdod yr Apelydd, yn groes i baragraff 6(1)(a) o'r Cod. | |
| **Enw:** Y Cyn Gynghorydd Andrew Edwards<br>**Rhif cyfeirnod**: APW/004/2024-025/CT<br>**Awdurdod perthnasol:** Cyngor Sir Benfro<br>**Natur yr honiad**: Torri paragraff 6(1)(a) o God Ymddygiad y Cyngor | **Honnwyd bod yr Aelod wedi recordio nodyn llais hiliol** a'i anfon at ei bartner ar y pryd gan ddefnyddio'r ap negeseuon "WhatsApp", ac yn ail, ei fod wedi **rhannu gwybodaeth ynglŷn â busnes y Cyngor, ynghyd â sylwadau amharchus am aelodau o'r** | Torri paragraff 6(1)(a) o God Ymddygiad y Cyngor.<br><br>Canfu'r tribiwnlys felly, trwy benderfyniad unfrydol, y dylai'r Ymatebydd gael ei **anghymhwyso am 4 blynedd** rhag bod, neu ddod, yn aelod o'r Awdurdod Perthnasol neu unrhyw awdurdod perthnasol | Fe wnaeth y tribiwnlys hefyd ystyried budd y cyhoedd trwy gynnal safonau mewn bywyd cyhoeddus a phwrpas cyffredinol y Cod Ymddygiad **i gynnal hyder mewn democratiaeth leol**.<br><br>Mae'n rhaid i unrhyw gyfnod o anghymhwyso fod yn **angenrheidiol a chymesur**. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Penderfyniad y Tribiwnlys**: Bod paragraff 6(1)(a) Cod Ymddygiad y Cyngor wedi cael ei dorri. Anghymhwyso am 4 blynedd.<br><br>APW/004/2024-025/CT: Y Cyn Gynghorydd Andrew Edwards \| Panel Dyfarnu Cymru | **cyhoedd** gyda'i bartner ar y pryd ar WhatsApp.<br><br>Honnwyd y byddai'n rhesymol ystyried bod yr ymddygiad hwn yn dwyn anfri ar swydd yr Ymatebydd fel Aelod, neu ddwyn anfri ar yr Awdurdod Perthnasol, ac roedd felly'n awgrymu fod paragraff 6(1)(a) o'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau wedi cael ei dorri. | arall yn unol â'r ystyr yn Neddf Llywodraeth Leol 2000. | Un o bwrpasau anghymhwyso yw caniatáu cyfnod o **adlewyrchu** er mwyn cydnabod effaith ddifrifol yr ymddygiad a'r **effaith ehangach ar y rôl a'r Cyngor** y gellid yn rhesymol fod wedi ei ragweld.<br><br>Ystyriwyd bod anghymhwyso yn deg fel cosb, yn gymesur ac er budd y cyhoedd yn yr achos hwn, er mwyn tanlinellu **pwysigrwydd y gyfundrefn safonau yng Nghymru, hyrwyddo diwylliant o gydymffurfio o fewn yr awdurdodau perthnasol a meithrin hyder y cyhoedd mewn democratiaeth leol.**<br><br>Nodwyd bod **Erthygl 10** o Siarter Hawliau Dynol Ewrop yn hawl sylfaenol, ond roedd yn hawl y gellid ei hawlio dim ond pan nad oedd yn effeithio ar hawliau sylfaenol pobl eraill, ac yn yr achos hwn roedd yn amlwg yn effeithio ar hawliau sylfaenol pobl eraill, ac roedd |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | yn effeithio ar fywydau unigolion eraill hefyd gan ei fod yn awgrymu y dylai eu hawl dynol i ryddid a chydraddoldeb gael ei benderfynu gan eu hil.<br><br>Daeth y Tribiwnlys Achos i'r casgliad **nad oedd y negeseuon dan sylw wedi eu gwneud mewn cyd-destun gwleidyddol**, a pha un bynnag, **gan eu bod mor eithafol ac annymunol, ni fyddai'r warchodaeth a roddir i wleidyddion fynegi barn yn rhydd o dan y Siarter Hawliau Dynol Ewrop yn berthnasol yma**. |
| **Enw:** Y Cynghorydd Attridge<br>**Rhif cyfeirnod**: APW/0004/2023-024/CT<br>**Awdurdod perthnasol:** Cyngor Sir y Fflint a Chyngor Tref Cei Connah<br>**Natur yr honiad:** Torri paragraffau 4(b), 4(c), 4(d), 5(a), 6(1)(a), 7(a), 11(2)(a) a 14(1)(d) | Roedd y mater wedi'i gyfeirio at PDC gan OGCC. Honnwyd bod yr Aelod wedi torri'r Cod trwy geisio datblygu perthynas gydag unigolyn oedd wedi gofyn am gymorth gyda phroblem yn gysylltiedig â thai ar ran aelod o'r teulu, er nad oedd yr unigolyn dan sylw yn byw yn ei ward. Ar ôl iddo ddweud ei fod yn ceisio helpu, dechreuodd | **Penderfyniad y Tribiwnlys:** Torri paragraffau 4(b), 4(c), 5(a), 6(1)(a) a 7(a). Nid oedd paragraffau 4(d), 11(2)(a) a 14(1)(d) wedi cael eu torri.<br><br>Gwahardd am bedwar mis. | Amgylchiadau'n ymwneud yn benodol â ffeithiau.<br><br>Ystyriodd y Tribiwnlys p'un a ddylai argymell bod yr Ymatebydd yn ymddiheuro'n benodol i'r unigolyn a'r swyddogion am ei ymddygiad, ond, ar ôl ystyried y Canllawiau ar Sancsiynau (paragraffau 54 a 55), **daeth i'r casgliad y dylai** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| [APW/0004/2023-024/CT: Cynghorydd Attridge \| Panel Dyfarnu Cymru] | anfon **negeseuon o natur rywiol at yr unigolyn** gan ei fod yn gobeithio cael ei ad-dalu am ei gymorth. Pan na dderbyniodd y cymorth a'r cydweithrediad yr oedd wedi gobeithio ei gael gan Swyddogion Tai, dechreuodd fod yn **anghwrtais a bygythiol** ac, yn dilyn hynny, dangosodd agwedd debyg tuag at y Swyddog Monitro ar ôl i'r materion ddod i'r amlwg. | | **argymhellion o'r fath fod wedi cael eu cyfeirio at yr awdurdodau a/neu eu Pwyllgorau Safonau.** |
| **Enw:** Y Cyn Gynghorydd Jeff Davies<br>**Rhif cyfeirnod**: APW/007/2023-024/CT<br>**Awdurdod perthnasol:** Cyngor Tref Cei Newydd<br>**Natur yr honiad:** Torri paragraff 6(1)(a)<br><br>[APW/007/2023-024/CT: Cyn-Cynghorydd Jeff Davies \| Panel Dyfarnu Cymru] | Honnwyd bod yr Aelod wedi anfon negeseuon o **natur rywiol** at unigolyn a bod hynny gyfystyr â **throsedd aflonyddu**, a arweiniodd at yr hyn y gellid ei ystyried yn **ymgais i flacmelio** y derbynnydd, ac yn sgil hynny derbyniodd **rybudd amodol** gan yr Heddlu.<br><br>Honnwyd y byddai'n rhesymol ystyried bod yr ymddygiad hwn yn dwyn anfri ar swydd yr Ymatebydd fel Aelod, neu'n dwyn anfri ar Awdurdod Perthnasol, ac roedd felly'n awgrymu fod paragraffau | Nododd y Tribiwnlys Achos fod yr Ymatebydd **wedi derbyn fod ei ymddygiad yn ymddygiad troseddol** trwy dderbyn rhybudd amodol. Roedd yr Ymatebydd wedi cyfaddef i'r drosedd o **aflonyddu ar y dioddefwr** ac roedd yn gwybod, neu dylai wybod, fod hynny gyfystyr ag aflonyddu. Roedd yr Ymatebydd wedi anfon nifer o negeseuon at y dioddefwr oedd yn amlwg yn negeseuon digroeso ac o natur rywiol ac anllad. | Daeth y Tribiwnlys Achos i'r casgliad mai'r cwestiwn perthnasol yn yr achos hwn oedd **p'un a oedd yr ymddygiad perthnasol wedi digwydd tra'r oedd yr Ymatebydd yn Aelod.**<br><br>Er bod Paragraff 4(a) o'r Cod yn cyfeirio'n benodol at y ffaith na ddylai Aelod aflonyddu ar unrhyw berson, nid oedd y rhan honno o'r Cod yn berthnasol pan oedd yr Aelod yn gweithredu mewn capasiti personol, ac roedd OGCC a thystion wedi cytuno mai dyma |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | 6(1)(a) o'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau wedi cael ei dorri. | **Penderfyniad y Tribiwnlys**: Torri paragraff 6(1)(a). Anghymhwyso am 12 mis. | oedd yr achos yn yr achos hwn. Er hynny, roedd paragraff 6(1)(a) yn gallu bob yn berthnasol o dan y fath amgylchiadau. |
| **Enw:** Y Cyn Gynghorydd Steve Davies<br>**Rhif cyfeirnod:** APW/006/2023-024/CT<br>**Awdurdod perthnasol:** Cyngor Sir Ceredigion a Chyngor Tref Aberystwyth<br>**Natur yr honiad:** Torri paragraffau 4(b), 4(c), 6(1)(a) a 7(a)<br><br>APW/006/2023-024/CT: Cyn-Cynghorydd Steve Davies \| Panel Dyfarnu Cymru | Honnwyd bod yr Aelod wedi bod yn gyfrifol am ymddygiad dros nifer o flynyddoedd, oedd yn ymwneud ag unigolion a lleoliadau gwahanol, y gellid ei gategoreiddio yn gyffredinol fel cyswllt digroeso, oedd yn aml yn ddi-baid ac a oedd, mewn rhai achosion, yn aflonyddu. (Mae *manylion llawn am yr 8 digwyddiad a ystyriwyd wedi eu cynnwys yn y Penderfyniad*) | **Penderfyniad y Tribiwnlys:** Torri paragraffau 4(b), 4(c), a 6(1)(a). Nid oedd paragraff 7(a) wedi cael ei dorri. Anghymhwyso am 3 blynedd. | Dylai paragraffau 4 (b) ac (c) o'r Cod fod wedi cael eu hystyried *sui generis* gydag (a) a'u darllen yn yr un cyd-destun; roeddent yn ymwneud ag **ymddygiad unigolyn wrth gyflawni ei ddyletswyddau fel cynghorydd**. Felly, roedd rhaid iddo fod yn gweithio yn y capasiti hwnnw a/neu'n rhoi'r argraff o hynny pan ddigwyddodd unrhyw achosion honedig o dorri'r Cod Ymddygiad. |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN / ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD:** | **22 Ionawr 2026** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Ceisiadau am Ganiatâd Arbennig** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Cynghori'r Pwyllgor Safonau ar ganlyniad unrhyw geisiadau am ganiatâd arbennig ers yr adroddiad ysgrifenedig diwethaf i'r Pwyllgor Safonau** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Gurvynda Paddan-White<br>Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol/Dirprwy Swyddog Monitro** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Lynn Ball<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro** |

## 1. CYFLWYNIAD

Yn unol â Chod Ymddygiad Cyngor Sir Ynys Môn, ni chaniateir i aelodau sydd â buddiant personol neu fuddiant sy'n rhagfarnu gymryd rhan mewn unrhyw drafodaeth ar y mater hwnnw yng nghyfarfodydd y Cyngor Llawn, y Pwyllgor Gwaith, neu unrhyw gyfarfod y byddant yn ei fynychu yn eu rôl fel aelod o'r Cyngor

Mae buddiannau personol yn cael eu rhestru ym mharagraff 10 o'r Cod. Mae paragraff 12 o'r Cod yn diffinio buddiannau sy'n rhagfarnu.

Mewn rhai amgylchiadau penodol, a chyfyngedig, gall aelod oresgyn y rhwystr sy'n cael ei greu gan y buddiant personol neu fuddiant sy'n rhagfarnu os ydynt yn gallu derbyn caniatâd arbennig gan y Pwyllgor Safonau, a fydd yn eu galluogi i gymryd rhan yn y drafodaeth ar y mater; weithiau gyda chyfyngiadau, ac am gyfnod penodedig.

## 2. CEFNDIR

Yn aml iawn mae angen caniatâd arbennig ar fyr rybudd, ac o fewn y cyfnod o rybudd cyfreithiol lleiaf posib, ac oherwydd hynny mae'r Pwyllgor Safonau wedi sefydlu trefn lle gellir galw ar Banel o dri aelod i ddelio ag unrhyw gais a dderbynnir rhwng cyfarfodydd y Pwyllgor llawn. Gall unrhyw dri aelod annibynnol / Cyngor Sir gynnal gwrandawiad i geisiadau a dderbynnir gan gynghorwyr sir (gyda'r mwyafrif yn aelodau annibynnol) a chynhelir gwrandawiad i geisiadau gan gynghorwyr tref / cymuned gan aelodau annibynnol ac aelodau cyngor tref/cymuned (gyda'r mwyafrif yn aelodau annibynnol).

## 3. CEISIADAU A WNAED ERS YR ADRODDIAD DIWETHAF

### 3.1 Gwrandawiad o'r Panel Caniatâd Arbennig ar 9 Hydref 2025

3.1.1 Gofynnwyd i'r Panel Caniatâd Arbennig ystyried cais gan y Cynghorydd Keith Roberts a'r Cynghorydd Jeff Evans, sydd wedi'u penodi i gynrychioli'r Awdurdod Lleol ar gorff llywodraethol Ysgol Uwchradd Caergybi, ac sy'n aelodau o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol. Mae'r Cynghorydd Jeff Evans hefyd yn Cadeirio'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol.

3.1.2 Ceir copi o gofnodion drafft y Panel Caniatâd Arbennig yn **Atodiad 1**.

3.1.3 Penderfynodd y Panel roi caniatâd arbennig i'r ddau Gynghorydd a oedd wedi gofyn am ganiatâd arbennig, gyda'r amodau a ganlyn:

- ysgrifennu at swyddogion a/neu'r Pwyllgor/Cyngor ynglŷn â'r mater;
- siarad â swyddogion y Cyngor ynglŷn â'r mater heb amodau;
- siarad yng nghyfarfodydd y Pwyllgor/Cyngor ac ateb unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r mater;
- aros yn yr ystafell yn ystod unrhyw drafodaeth/pleidlais ynglŷn â'r mater;
- pleidleisio; a
- chymryd rhan mewn cyfarfodydd allanol a chyfarfodydd unrhyw gyrff allanol fel aelod o'r Cyngor.

- Bydd y Caniatâd Arbennig yn dod i ben ar ddiwedd y cyfnod ymgynghori a phob trafodaeth / penderfyniad sy'n ymwneud ag unrhyw ymgynghoriad o'r fath mewn perthynas â darpariaeth addysg yn ardal Caergybi, ac yn deillio o hynny, neu ddiwedd tymor presennol y Cynghorwyr yng Nghyngor Sir Ynys Môn, pa un bynnag sydd ddiweddaraf.

## 4. ARGYMHELLIAD

4.1 Bod y Pwyllgor yn nodi'r caniatadau arbennig a roddwyd a'r sail a'r amgylchiadau dros eu caniatáu.

# PANEL CANIATÂD ARBENNIG (Y PWYLLGOR SAFONAU)

## Cofnodion y cyfarfod hybrid a gynhaliwyd ar 9 Hydref 2025

**YN BRESENNOL:** **Aelodau Annibynnol**

Mr Brace Griffiths (Cadeirydd)
Mr John R Jones

**Yn cynrychioli'r Cyngor Sir**

Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas

**WRTH LAW:** Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol/Dirprwy Swyddog Monitro (GP)
Swyddog Pwyllgorau (SC)

**HEFYD YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd Keith Roberts

**YMDDIHEURIADAU:** Dim

---

Croesawodd y Cadeirydd bawb a oedd yn bresennol i gyfarfod y Panel Caniatâd Arbennig.

**1. DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Bu i'r Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas ddatgan diddordeb personol yn Eitem 2 ar yr agenda am ei fod yn Gynghorydd Sir ar gyfer Ward Cybi, sy'n eistedd y tu mewn i dalgylch Ysgol Uwchradd Caergybi.

Bu i'r Cynghorydd Keith Roberts (un o'r ymgeiswyr ar gyfer caniatâd arbennig) ddatgan diddordeb personol yn Eitem 2 ar yr agenda, am ei fod yn Gynghorydd Sir ar gyfer Ward Cybi, ac yn Llywodraethwr yn Ysgol Uwchradd Caergybi.

**2. CEISIADAU AM GANIATÂD ARBENNIG**

Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth Cyfreithiol/Dirprwy Swyddog Monitro (GP) fod dau gais am ganiatâd arbennig wedi'u derbyn gan y Cynghorydd Jeff Evans a'r Cynghorydd  Keith Roberts, mewn perthynas â'u ddiddordeb yn y cynnig ar gyfer Ysgol Uwchradd Caergybi, gyda'r ddau yn Lywodraethwyr wedi'u penodi gan y Cyngor Sir.

Cyfeiriwyd at y Cod Ymddygiad (Atodiad 1 yr adroddiad), sy'n nodi'r amodau hynny ble mae'n rhaid i Gynghorwyr Sir wneud cais am ganiatâd arbennig ar gyfer diddordebau personol a diddordebau sy'n rhagfarnu.  Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol/Dirprwy Swyddog Monitro fod yr ymgeiswyr yn yr adroddiad

yn ceisio cael caniatâd arbennig ar gyfer tryloywder a gonestrwydd, er mwyn rhoi caniatâd iddynt gymryd rhan mewn unrhyw drafodaeth a phroses gwneud penderfyniad yn y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar 15 Hydref 2025, lle bydd y materion yn cael eu hystyried. Nodwyd fod y Cynghorydd Jeff Evans yn Gadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol.

Cafodd y Cynghorydd Roberts gyfle i siarad gyda'r Panel a rhoi ei resymau am geisio caniatâd arbennig.

Ar ôl clywed am gefndir y ceisiadau am ganiatâd arbennig gan yr ymgeiswyr, cafodd y Panel sesiwn breifat i bennu a ddylid rhoi caniatâd arbennig ai peidio, ac os rhoddir caniatâd arbennig, i ystyried (i) ar ba sail(seiliau) y dyfernir y caniatâd arbennig ac (ii) oes unrhyw gyfyngiadau i'w cyflwyno.

**PENDERFYNWYD dyfarnu caniatâd arbennig i'r Cynghorydd Jeff Evans a'r Cynghorydd Keith Roberts, yn eu rhinwedd fel Llywodraethwyr Ysgol Uwchradd Caergybi mewn perthynas â'r rhesymau hynny y cyfeiriwyd atynt yn y ceisiadau.**

**Mae'r Caniatâd arbennig yn rhoi hawl i'r Cynghorwyr:-**

- **ysgrifennu at swyddogion a/neu'r Pwyllgor/Cyngor am y mater;**
- **siarad â swyddogion y Cyngor am y mater heb amodau;**
- **siarad yn nghyfarfodydd y Pwyllgor/Cyngor ac ateb unrhyw gwestiynau am y mater;**
- **aros yn yr ystafell yn ystod unrhyw drafodaeth/pleidlais am y mater;**
- **pleidleisio; a**
- **chymryd rhan mewn cyfarfodydd allanol a chyfarfodydd unrhyw gyrff allanol fel aelod o'r Cyngor.**

**Gweithred:**

- **Bod y Cynghorydd Evans a'r Cynghorydd Roberts yn datgan diddordeb personol wrth fynychu cyfarfodydd y Cyngor a'r holl gyfarfodydd eraill.**
- **Bod y Cadeirydd yn ysgrifennu at y Cynghorydd Jeff Evans a'r Cynghorydd Keith Roberts yn cadarnhau bod y Panel Caniatâd Arbennig wedi dyfarnu caniatâd arbennig iddynt sy'n eu galluogi i ysgrifennu, siarad am a phleidleisio ar yr holl faterion yn ymwneud â'r mater hwn.**

Daeth y cyfarfod i ben am 2:30 pm

**MR BRACE GRIFFITHS**
**CADEIRYDD**

| CYNGOR SIR YNYS MÔN / ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD:** | **22 Ionawr 2026** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Diweddariad y Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol a Dirprwy Swyddog Monitro** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Fel yr uchod** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Lisa Lord / Gurvynda Paddan-White**<br>**Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol a Dirprwy Swyddog Monitro (Locwm)**<br>**lisalord@ynysmon.llyw.cymru** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Lynn Ball**<br>**Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro**<br>lbxcs@ynysmon.llyw.cymru |

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn darparu diweddariad gan y Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol a Dirprwy Swyddog Monitro ar nifer o faterion sy'n berthnasol i'r Pwyllgor.

## 2. MATERION

### 2.1 Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau ar gyfer 2024/2025

Ar 25 Medi 2025, cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor Safonau yr Adroddiad Blynyddol i'r Cyngor llawn. Yn y cyfarfod hwn, fe wnaeth y Cyngor gymeradwyo

i. Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau ar gyfer 2024/2025, a
ii. Rhaglen Waith y Pwyllgor Safonau ar gyfer 2025/26 (gan gydnabod y gall rhai materion ychwanegol godi a chael eu hychwanegu i'r rhaglen).

Mae copi o'r Adroddiad Blynyddol wedi cael ei anfon at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

Mae copi o'r adroddiad i'r Cyngor llawn a'r Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2024/25 ar gael yn y fan yma

### 2.2 Hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad - diweddariad

Yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor Safonau ym mis Mehefin eleni, ysgrifennodd at bob Cyngor Tref a Chymuned ar 6 Awst 2025 yn gofyn am eu cynlluniau ar gyfer darparu hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad a chyhoeddi'r cynlluniau hynny. Hyd y mae, mae'r Cyngor wedi derbyn 6 ymateb.

## 2.3 Llythyr at OGCC - diweddariad

Anfonwyd llythyr gan y Cadeirydd ar 16 Gorffennaf ym mynegi pryder am yr amser a gymerir i ymchwilio i honiadau bod cynghorwyr sir a chymuned yn yr ardal wedi ymddwyn yn groes i'w Cod Ymddygiad. Derbyniwyd ymateb gan yr Ombwdsmon ar 29 Gorffennaf 2025, a oedd yn nodi eu hymddiheuriadau a'r 'camau a gymerwyd yn ddiweddar i geisio cyflymu'r broses'. Mae'r rhai yn cynnwys:

Dyrannu adnoddau i greu rôl 'Swyddog Asesu' o fewn y Tîm Cod Ymddygiad, am y tro cyntaf. Caiff cwynion newydd eu cyfeirio at y swyddog yma yn y lle cyntaf, fel y gellir penderfynu a oes angen ymchwilio i'r gwyn ai peidio yn gyflym. Yna, gall Swyddogion Ymchwilio ganolbwyntio ar ymchwilio i achosion a gwrando ar sylwadau, heb orfod rheoli'r asesiadau hyn ar yr un pryd.

Mae rôl Cynorthwyydd Trin Achosion wedi cael ei chreu yn ogystal, am gyfnod penodol, i helpu Swyddogion Ymchwilio gwblhau tasgau gweinyddol, megis trefnu cyfweliadau, anfon gohebiaeth a holi am ddatganiadau, ayb.

Mae Swyddogion Ymchwilio Graddedig wedi cael eu penodi ac mae un ar leoliad gyda'r Tîm Cod Ymddygiad, ac felly mae gan y tîm fwy o gapasiti i ymchwilio.

## 3. ARGYMHELLIAD

Nodi'r adroddiad.

| CYNGOR SIR YNYS MÔN / ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD:** | **22 Ionawr 2026** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Nodiadau Briffio'r Pwyllgor Safonau ar gyfer Aelodau** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Diweddaru'r Pwyllgor ar yr amserlen ar gyfer adolygu ac ailgyhoeddi'r Nodiadau Briffio a gyhoeddwyd gan y Pwyllgor Safonau ar gyfer yr Aelodau** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Lisa Lord**<br>**Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol a Dirprwy Swyddog Monitro (Locwm)**<br>**lisalord@ynysmon.llyw.cymru** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Lynn Ball**<br>**Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro**<br>**lbxcs@ynysmon.llyw.cymru** |

## 1. CYFLWYNIAD

Mae'n bosib y bydd y Pwyllgor yn cofio am y penderfyniad i adolygu ac ailgyhoeddi'r nodiadau briffio a gyhoeddwyd gan y Pwyllgor ar gyfer yr Aelodau ar ôl ystyried yr adroddiad a gyhoeddwyd gan Archwilio Cymru yn gysylltiedig â Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r amserlen arfaethedig ar gyfer eu hadolygu ac ailgyhoeddi.

Mae'r Swyddog Monitro yn fodlon bod y nodiadau briffio'n gadarn a bod y cyngor cyfreithiol sydd ynddynt yn gyfredol, fodd bynnag cytunwyd y byddai'n ddefnyddiol adnewyddu ac ailgyhoeddi'r nodiadau briffio i gefnogi'r ddyletswydd i hyrwyddo safon uchel o ymddygiad gan Gynghorwyr Sir a Chynghorwyr Tref a Chymuned Ynys Môn, yn cynnwys eu cynorthwyo i lynu wth y Cod Ymddygiad.

## 2. Y CAMAU NESAF

Cynigir bod y nodiadau briffio yn cael eu hadolygu yn unol â'r amserlen isod:

| | **Y dyddiad arfaethedig ar gyfer eu hailgyhoeddi** |
|---|---|
| Datganiadau o fuddiant personol a rhagfarnus gan Aelodau CSYM | Diwedd Ionawr |
| Datganiadau o fuddiant personol a rhagfarnus gan Aelodau Cynghorau Tref a Chymuned | Diwedd Ionawr |
| Rhoddion a Lletygarwch | Diwedd Chwefror |
| Ceisiadau am ganiatâd arbennig gan Aelodau CSYM | Diwedd Chwefror |
| Ceisiadau am ganiatâd arbennig gan Aelodau Cynghorau Tref a Chymuned | Diwedd Chwefror |

| | |
|---|---|
| ystyried ceisiadau am ganiatâd arbennig; | Diwedd Chwefror |

Bydd y nodiadau briffio diwygiedig yn cael eu rhannu ar y porth Aelodau a gofynnir i'r Arweinwyr Grŵp hyrwyddo'r nodiadau briffio gyda'u haelodau.

## 3. CEFNDIR

Adolygiad dilyn i fyny ar werthoedd ac ymddygiad - Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | Archwilio Cymru

## 4. ARGYMHELLIAD

4.1 Nodi'r camau nesaf yn gysylltiedig ag adolygu ac ailgyhoeddi Nodiadau Briffio'r Pwyllgor Safonau ar gyfer yr Aelodau.

| CYNGOR SIR YNYS MÔN / ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD:** | **22 Ionawr 2026** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Fforwm Pwyllgorau Safonau Cenedlaethol Cymru** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Diweddariad ar Fforwm Pwyllgorau Safonau Cenedlaethol Cymru** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Gurvynda Paddan-White**<br>**Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol / Dirprwy Swyddog Monitro** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Lynn Ball**<br>**Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro**<br>lbxcs@ynysmon.llyw.cymru |

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae Fforwm Pwyllgorau Safonau Cenedlaethol wedi cael ei sefydlu yng Nghymru o ganlyniad i'r argymhelliad yn Adolygiad Penn o'r Fframwaith Moesegol yng Nghymru.

1.2 Yn unol â chylch gorchwyl y Fforwm, dim ond Cadeirydd pob Pwyllgor Safonau sy'n cael mynychu cyfarfodydd y Fforwm.

## 2. CYFARFODYDD Y FFORWM

2.1 Cynhaliwyd cyfarfod o'r Fforwm ar y 23ain o Fehefin 2025. Mae cofnodion y cyfarfod ynghlwm. Roedd y brif thema'n ymwneud â'r amser a gymerir i OGCC gynnal ymchwiliadau a'r oedi a fu.

2.2 Cynhelir y cyfarfod nesaf ar y 26ain o Ionawr 2026.

## 3. DOGFENNAU'R FFORWM

3.1 Mae'r Fforwm wedi cytuno, o ran nodiadau'r Fforwm - *"y gellir rhannu'r nodiadau â Phwyllgorau Safonau, cyn belled nad oes modd adnabod yr achwynydd neu'r cynghorydd dan sylw. Bydd hyn yn cael ei adolygu yn ystod/yn dilyn pob cyfarfod."*

## 4. ARGYMHELLIAD

4.1 Bod y Pwyllgor yn nodi cynnwys yr adroddiad.

**Fforwm Cadeiryddion y Pwyllgorau Safonau - Cymru**

**Dydd Llun, 23 Mehefin 2025 am 2pm, dros Teams**

**Nodiadau**

1. **Nodiadau'r cyfarfod blaenorol - 27 Ionawr 2025.**

   Cadarnhawyd bod y camau gweithredu wedi'u cwblhau. Trafododd y Fforwm nodiadau 3(a) a 9 yn y cyfarfod heddiw - Gweler nodiadau 2 a 3 isod.

2. **Ymgysylltiad yn y dyfodol â Llywodraeth Cymru (LlC), Adran Polisi Llywodraeth Leol, Newid yn yr Hinsawdd a Materion Gwledig (eitem 3(a) o nodiadau'r cyfarfod blaenorol).**

   Cadarnhaodd JC ei bod hi a CT wedi cyfarfod â PL o Adran Bolisi Llywodraeth Cymru a argymhellodd y byddai'n well trefnu'r cyswllt â Chadeiryddion oedd yn fodlon cymryd rhan mewn sesiynau ymgynghori/adborth a drefnwyd gan ei Hadran hi drwy eu Swyddogion Monitro perthnasol.

3. **Cydnabyddiaeth Ariannol - y wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith ymgysylltu â Chomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru (eitem 9 o nodiadau'r cyfarfod blaenorol).**

   Cadarnhaodd CW ei fod wedi ysgrifennu at Brif Weithredwr y Comisiwn yn amlinellu ei rwystredigaeth gyda'r taliadau i Aelodau Cyfetholedig, h.y. nad yw'r cyfraddau wedi cynyddu ers tro byd ac anghysondeb yn y ffordd oedd y taliadau'n cael eu gwneud ar hyd a lled Cymru. Roedd y Prif Swyddog Gweithredol wedi cadarnhau y byddai'n falch o ddod i un o gyfarfodydd y Fforwm, er mae'n debyg na fyddai hynny yng nghyfarfod mis Mehefin 2025. Mae'n fwy tebygol y byddai'n dod i'r cyfarfod ar ôl hynny, er mwyn cael cadarnhad o raglen waith y Comisiwn gyda'i Chomisiynwyr, oedd yn cynnwys cyfrifoldebau oedd wedi'u trosglwyddo o Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.

4. **Michelle Morris (MM), Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) - Y wybodaeth ddiweddaraf.**
   Rhoddodd MM y wybodaeth ddiweddaraf i'r Fforwm yn ymwneud â'r canlynol.

   a) Hysbysiad am gŵyn (nodyn 5c o'r cyfarfod blaenorol). Yn dilyn ymgynghori â budd-ddeiliaid, roedd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, o 1 Ebrill 2025 wedi mynd yn ôl i hysbysu Aelodau

pan mae’r gŵyn yn cael ei derbyn yn hytrach nag yn hwyrach ymlaen yn y broses pan oedd asesiad wedi’i gynnal os oes achos i’w ateb.

b) Gwaith achos

- Roedd llai o lwyth achosion ar gyfer cwynion cod ymddygiad na’r llynedd, er eu bod yn uchel, 315 achos, o’i gymharu â blynyddoedd blaenorol.
- Roedd 60% yn ymwneud â Chynghorau Tref a Chymuned (7% yn fwy na’r flwyddyn flaenorol) a 40% ag Awdurdodau Lleol. Diffyg cydraddoldeb a pharch oedd prif thema’r cwynion.
- Ymchwiliodd yr Ombwdsmon i 49 o achosion yn ystod y flwyddyn flaenorol, ac roedd 15 ohonynt wedi cael eu cyfeirio at Bwyllgorau Safonau neu Banel Dyfarnu Cymru. Roedd hyn yn dal yn uchel er ei fod yn llai na 20 atgyfeiriad y flwyddyn flaenorol. Yn benodol, cafodd 85% o’r achosion o dorri’r cod eu cynnal, oedd yn ddangosydd cadarnhaol i’r Ombwdsmon h.y. roedd defnyddio’r prawf dau gam i ddangos bod achos i’w ateb yn gweithio’n effeithiol.
- Roedd y flwyddyn flaenorol, 2024-2025 wedi bod yn un brysur i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, a bydd crynodeb yn cael ei gynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol a’i gyhoeddi ddiwedd mis Gorffennaf 2025.

c) Protocol Penderfyniadau Lleol

- Roedd yn bwysig iawn bod problemau lefel isel yn cael eu datrys yn lleol pan fo’n bosibl.
- Roedd datrysiadau lleol yn golygu y byddai materion yn cael eu setlo’n gyflym, cyn i berthnasoedd gael eu heffeithio a chyn i sefyllfaoedd ddwysau’n ddiangen. Yna gallai’r Ombwdsmon ymdrin â’r achosion mwyaf difrifol, oedd yn ddefnydd llawer gwell o’u hadnoddau.
- Roedd yr Ombwdsmon yn gweithio ar ddatblygu arfer da gydag Awdurdodau Lleol, yn cynnwys Swyddogion Monitro.

d) Ymatebion i gwestiynau/sylwadau gan y Cadeiryddion.

- Roedd pryder ei bod yn cymryd llawer o amser i ystyried rhai achosion. Cydnabu MM fod rhai achosion wedi bod ar y gweill ers dros flwyddyn, oedd yn rhy hir, ac roedd yr Ombwdsmon yn gweithio i wella hyn. Y rhesymau am hyn oedd y nifer fawr o gwynion a dim digon o staff i’w prosesu. Nid oedd arian ar gyfer cefnogaeth ychwanegol er bod aelod o staff dros dro ac un aelod arall o staff wedi cael eu dyrannu i ymdrin â’r mater. Roedd swyddog penodol ar gyfer gwaith asesu yn canolbwyntio ar y maes hwn a’r gobaith oedd y byddai mwy o achosion yn cael eu datrys cyn pen 12 mis y flwyddyn nesaf.

- Er cysondeb, byddai'n well cael un dull o'r top i lawr ar gyfer model Gweithdrefn Datrys Leol, yn hytrach na'i adael i Bwyllgorau Safonau, oedd yn arwain yn anochel at weithdrefnau anghyson. Wrth ymateb, dywedodd MM nad oedd yn fater syml gan fod y materion hyn yn rhan o gyfansoddiad bob Cyngor. Y bwriad oedd cyhoeddi arfer gorau, yn hytrach na gosod gweithdrefn, gyda'r nod o gael cysondeb.
- Bydd MM yn parhau i geisio sicrhau bod Adroddiad Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn "hawdd a difyr" ei ddarllen. Bydd MM hefyd yn gwirio ac yn cadarnhau os yw'n bosibl dangos tueddiadau dros amser, sef gosod ffigurau'r flwyddyn gyfredol mewn cyd-destun e.e. 315 o gwynion cod ymddygiad o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol.
- Codwyd pwyntiau gan y Cadeiryddion am gwynion yn ymwneud â Chynghorau Tref a Chymuned; nid oedd yn glir faint oedd wedi cwblhau'r hyfforddiant Un Llais Cymru ac wedi llofnodi'r addewid cwrteisi a pharch, o gofio nifer y cwynion yn y sector hwn, oedd hi'n bryd adolygu'r hyfforddiant; roedd gormod o swyddi Clercod gwag a dim digon o ymgeiswyr yn sefyll etholiadau cynghorwyr Tref a Chymuned, a ddylai Llywodraeth Cymru ystyried uno cynghorau cymuned llai; pan fo sawl Cyngor yn penodi Clerc ar y cyd, sy'n gallu gadael bwlch mawr os byddant yn gadael, a allai'r Awdurdod Lleol gyflogi cronfa o Glercod i sicrhau trefniadau mwy cadarn; ac yn olaf, roedd adolygiad cymunedol ar y gweill mewn un ardal ble roedd Cyngor yn adolygu nifer a maint Cynghorau Tref a Chymuned. Cydnabuwyd bod hwn yn faes sensitif. Cafodd y Fforwm wybod am ymchwiliad Llywodraeth Cymru (Pwyllgor LGH) oedd i fod i adrodd yn ôl ar y maes hwn a Grŵp Tasg a Gorffen Iechyd Democrataidd Llywodraeth Cymru oedd yn canolbwyntio ar wella cyfranogiad ac amrywiaeth mewn Cynghorau Tref a Chymuned.

**5. Materion a godwyd drwy eithriad gan y Cadeiryddion**

**Goddefebau, dulliau pwyllgorau unigol: (CD, Cadeirydd Pwyllgor Safonau Ceredigion).**

**a) A yw'n ofynnol i gynghorwyr fod yn bresennol i gyflwyno eu cais; safbwyntiau ar hyd y goddefebau e.e. blynyddol/hyd y cyfnod yn y swydd; derbyn ceisiadau hwyr; unrhyw gyngor ysgrifenedig i gynghorwyr ar yr agweddau hyn; awdurdod dirprwyedig i'r Swyddog Monitro.**

b) **A oes canllawiau ysgrifenedig i aelodau pwyllgorau ar sut i wneud penderfyniadau e.e. beth i'w ystyried/ganiatáu e.e. pryd i ganiatáu pleidleisio neu beidio.**
   - Dywedodd JC fod gwahaniaethau rhwng y ffordd yr ymdrinnir â goddefebau yng Nghymru a Lloegr.
   - Dylid cyfeirio at Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 a81(4) am restr o oddefebau, llawer o benrhyddid - mae'n eang iawn.
   - Yng Nghymru, mae gweithdrefnau'n fater i gyfansoddiadau lleol, ac maen nhw'n gwahaniaethu. Cadarnhaodd y Cadeiryddion hyn e.e. mewn rhai achosion, mae'n orfodol i Aelod ymddangos gerbron Pwyllgor Safonau, ond nid mewn achosion eraill.
   - Rhoddir goddefebau am gyfnodau amrywiol e.e. blwyddyn ac maen nhw'n cael eu hadolygu, ond mewn achosion eraill, gallant bara mwy neu hyd yn oed un cyfarfod yn unig.
   - Mae'n bosibl gwneud penderfyniadau brys e.e. wrth ymgynghori â Chadeirydd y Pwyllgor Safonau, sy'n ei drafod â'r Swyddog Monitro.
   - Cynigiodd JH rannu'r ffurflen safonol a ddefnyddir yn ei Chyngor hi.

   **Cam gweithredu - JH i ddosbarthu drwy CT.**

6. **Achosion o ddiddordeb yn ddiweddar - Panel Dyfarnu Cymru ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn y 6 mis blaenorol – JC.**

   a. Gan gadw at ddiben y Fforwm fel rhwydwaith ddysgu, roedd y Cadeiryddion yn gwerthfawrogi'r cyfle i drafod sawl achos o ddiddordeb a dysgu o brofiadau traws sector.

   b. Ategodd y Cadeiryddion y sylwadau a wnaed yn y cyfarfod blaenorol am gymhlethdod a'r amser sydd ei angen i gynnal gwrandawiadau ymddygiad. Mae gan rai Cynghorau brotocol ysgrifenedig ffurfiol. **Cam gweithredu - CD i rannu ei dogfen friffio ar achosion ar gyfer Cadeiryddion Pwyllgorau Safonau. CT i'w rannu â'r Fforwm.**

   c). Mae'n bwysig bod Pwyllgorau Safonau'n glir am eu rhesymau dros wneud eu penderfyniad. Caniateir rhai apeliadau oherwydd nad yw'r penderfyniad wedi'i roi'n gywir, yn ysgrifenedig ac yn llawn. Roedd sleidiau cyflwyniad cyn Lywydd Panel Dyfarnu Cymru (a ddosbarthwyd gyda nodiadau'r cyfarfod blaenorol) o gymorth mawr.

   **Cam gweithredu - CT i ail-ddosbarthu sleidiau Panel Dyfarnu Cymru.**

   **Cam gweithredu - JH i rannu ystyriaethau ei Phwyllgor wrth osod eu penderfyniadau i Wrandawiadau.**

d). Mae’n bosibl y byddai rhai Cadeiryddion yn gwerthfawrogi dull “cyfaill” gyda Chadeiryddion sydd â phrofiad blaenorol o wrandawiadau.

e). I osgoi achos o wrthdaro buddiannau gan y Swyddog Monitro, gallant basio’r mater ymlaen at eu dirprwy, neu nid yw’n anarferol, fel arfer safonol, i Ddirprwy Swyddogion Monitro dderbyn cwyn i ddechrau i osgoi’r sefyllfa hon.

**7. Cadeirydd y Fforwm**

Fel y nodwyd yn y cyfarfod blaenorol, bydd CW yn parhau fel Cadeirydd hyd nes y bydd ei olynydd yn cael ei benodi yn y cyfarfod nesaf a drefnwyd ar gyfer 26 Ionawr 2026. Diolchwyd i CW am fod yn Gadeirydd cyntaf y Fforwm ers ei sefydlu. Mae ei ymroddiad a’i gefnogaeth wedi sicrhau bod y Fforwm wedi cael dechrau da drwy sefydlu ei hun fel y bwriadwyd, sef fforwm dysgu i Gadeiryddion rannu profiadau o’r sector cyfan a datblygu arfer gorau.

**Cam gweithredu: JC a CT i hwyluso’r trefniadau ar gyfer penodi Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Fforwm, gyda hynny’n dod i rym o 26 Ionawr 2026. Gofynnir i unrhyw un sydd â diddordeb yn y rolau gyflwyno ciplun 250 gair ac mae’n debygol y bydd y penodiad yn para 2 flynedd.**

**8. Dyddiadau’r cyfarfodydd nesaf.**

- Dydd Llun 26 Ionawr 2026, 2pm - 4pm dros Teams.
- Dydd Llun 22 Mehefin 2026 neu 29 Mehefin 2026 (i’w gadarnhau), 2pm - 4pm ar-lein.

| CYNGOR SIR YNYS MÔN / ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD:** | **22 Ionawr 2026** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Rheoliadau Llywodraeth Leol (Pwyllgorau Safonau ac Ymddygiad Aelodau) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2025** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Diweddaru'r Pwyllgor ar y newidiadau i'r meini prawf cymhwystra ar gyfer aelodau lleyg a'r Cod Ymddygiad Enghreifftiol ar gyfer Aelodau.** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Lisa Lord**<br>**Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol a Dirprwy Swyddog Monitro (Locwm)**<br>**lisalord@ynysmon.llyw.cymru** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Lynn Ball**<br>**Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro**<br>lbxcs@ynysmon.llyw.cymru |

## 1. CYFLWYNIAD

Bydd Rheoliadau Llywodraeth Leol (Pwyllgorau Safonau ac Ymddygiad Aelodau) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2025 (y Rheoliadau) yn dod i rym ar 5 Ionawr 2026. Mae'r Rheoliadau'n diwygio:

i. Y meini prawf cymhwystra ar gyfer aelodau lleyg,
ii. Y Cod Ymddygiad enghreifftiol ar gyfer Aelodau.

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r diwygiadau a'r camau a fydd yn cael eu cymryd i gydymffurfio â'r Rheoliadau.

## 2. DIWYGIADAU I'R MEINI PRAWF CYMHWYSTRA AR GYFER AELODAU LLEYG

Mae'r Rheoliadau'n diwygio Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2001 yn gysylltiedig â'r meini prawf cymhwystra ar gyfer aelodau lleyg.

Bydd y meini prawf cymhwystra presennol ar gyfer aelodau lleyg sydd wedi bod yn aelodau o awdurdodau perthnasol yn cael eu disodli â'r meini prawf sydd wedi'u crynhoi isod

| | |
|---|---|
| ni chaiff unrhyw berson sydd wedi dal **swydd uwch, swydd gabinet neu swydd weithredol** mewn un neu ragor o awdurdodau perthnasol fod yn aelod annibynnol o bwyllgor safonau unrhyw awdurdod perthnasol y mae'r person hwnnw wedi dal swydd o'r fath ynddo | hyd nes y daw i ben y cyfnod o **bum mlynedd** sy'n dechrau â'r dyddiad y peidiodd y person hwnnw â dal swydd o'r fath ddiwethaf; |

| | |
|---|---|
| ni chaiff unrhyw berson a oedd yn aelod o un neu ragor o awdurdodau perthnasol fod yn aelod annibynnol o bwyllgor safonau unrhyw awdurdod perthnasol yr oedd y person hwnnw'n aelod ohono (nad oedd yn dal swydd uwch, swydd gabinet neu swydd weithredol) | hyd nes y daw i ben y cyfnod o **ddwy flynedd** sy'n dechrau â'r dyddiad y peidiodd y person hwnnw â bod yn aelod o'r awdurdod hwnnw ddiwethaf. |

Mae'r un cyfnodau hefyd yn berthnasol i aelodau blaenorol a Phwyllgorau Safonau cydbwyllgorau corfforedig.

O ran swyddogion blaenorol o awdurdodau perthnasol mae'r meini prawf diwygiedig wedi'u crynhoi isod

| | |
|---|---|
| Caiff person a oedd yn arfer dal swydd heb gyfyngiadau gwleidyddol mewn un awdurdod perthnasol neu ragor fod yn aelod annibynnol o bwyllgor safonau unrhyw awdurdod perthnasol | Nid oes cyfnod aros |
| Caiff person a oedd yn arfer bod yn swyddog ac a oedd yn dal swydd â chyfyngiadau gwleidyddol mewn un awdurdod perthnasol neu ragor fod yn aelod annibynnol o'r pwyllgor safonau | ni chaiff y person hwnnw fod yn aelod annibynnol o bwyllgor safonau unrhyw awdurdod perthnasol lle'r oedd yn dal swydd â chyfyngiadau gwleidyddol ynddo hyd nes y daw i ben y cyfnod o **ddwy flynedd** sy'n dechrau â'r dyddiad y peidiodd y person hwnnw â dal swydd o'r fath ddiwethaf. |

Mae'r un cyfnodau hefyd yn berthnasol i swyddogion blaenorol a Phwyllgor Safonau cydbwyllgor corfforedig.

Nid oes rhaid diwygio'r cyfansoddiad yn sgil y newidiadau hyn. Bydd y gwaith papur ar gyfer recriwtio a phenodi aelodau lleyg yn cael ei adolygu a'i ddiwygio yn ôl y gofyn.

## 3. DIWYGIADAU I'R COD YMDDYGIAD ENGHREIFFTIOL

Mae'r Rheoliadau'n diwygio Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Cod Ymddygiad Enghreifftiol) (Cymru) 2008 drwy ychwanegu diffiniad o'r 'nodweddion gwarchodedig' a diwygio paragraff 4(a) fel a ganlyn

*4. Rhaid i chi -*

*(a) gyflawni eich dyletswyddau a'ch cyfrifoldebau gan roi sylw dyladwy i'r egwyddor y dylai fod cyfle cyfartal i bawb, waeth beth fo'u ~~rhyw, eu hil, eu hanabledd, eu cyfeiriadedd rhywiol, eu hoed neu eu crefydd;~~ nodweddion gwarchodedig neu amgylchiadau economaidd-gymdeithasol*

Bydd y diwygiadau perthnasol i'r Cod Ymddygiad yn cael eu gwneud gan y Swyddog Monitro o dan bwerau dirprwyedig a bydd copi'n cael ei anfon i bob aelod.

## 4. ARGYMHELLIAD

Nodi'r diwygiadau a'r camau a fydd yn cael eu cymryd i'w gweithredu a chydymffurfio â'r Rheoliadau.

This page is intentionally left blank

**PRAWF BUDD Y CYHOEDD**
**PUBLIC INTEREST TEST**

**Cwynion am ymddygiad at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) lle cafodd hysbysiadau o benderfyniadau eu cyflwyno i'r Cyngor yn ystod chwarter 1, 2 a 3 2025/2026**

**Conduct Complaints to the Public Services Ombudsman for Wales (PSOW) where decision notices have been issued to the Council during quarter 1,2 and 3 of 2025/2026**

| Paragraffau 12 ac 13 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972<br>Paragraphs 12 and 13 Schedule 12A Local Government Act 1972 | |
|---|---|
| **Y prawf - The test** | |
| Mae budd i'r cyhoedd o ddatgelu oherwydd:<br><br>Mae disgwyliad rhesymol i'r Pwyllgor Safonau fod yn dryloyw mewn perthynas â'r materion a drafodir ganddo.<br><br>Mae'r Pwyllgor Safonau yn ystyried adroddiadau mewn perthynas â chwynion a dderbyniwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru mewn perthynas â Chynghorwyr Sir a Chynghorwyr Tref a Chymuned. Bydd yr adroddiad fel arfer yn ddienw ac yn cael ei rannu â'r Pwyllgor Safonau er mwyn adnabod lefelau ac unrhyw dueddiadau sy'n codi. Mae hyn yn parhau i gael ei rannu â'r Pwyllgor yn gyhoeddus (Eitem 5 ar agenda'r cyfarfod hwn).<br><br>There is a public interest in disclosure as:<br><br>The business of the Standards Committee is connected with a reasonable expectation of transparency in respect of the matters discussed.<br><br>The Standards Committee considers reports in relation to the complaints received by the Public Services Ombudsman for Wales for both County Councillors and Town and Community Councillors. The report is usually anonymised and is shared with the Standards Committee to identify levels and any trends arising. This continues to be shared with the Committee publicly (agenda item 5 for this meeting). | Y budd i'r cyhoedd o beidio datgelu yw:<br><br>Mae'r adroddiad yn cynnwys gwybodaeth sy'n ymwneud ag unigolion penodol ac mae'n debygol o ddatgelu pwy yw'r unigolion hyn.<br><br>Mae budd i'r cyhoedd o beidio â datgelu trwy osgoi'r tebygolrwydd y byddai datgelu'n arwain at adnabod yr unigolion, neu'n arwain at wneud datgeliad am unigolion mewn modd a fyddai'n groes i'r darpariaethau peidio â datgelu yn Neddf Diogelu Data y DU 2018.<br><br>Mae cyfarwyddyd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wrth anfon y Rhybudd Penderfyniad yn nodi gellir ei rannu gyda'r Pwyllgor Safonau'n breifat.<br><br>The public interest in not disclosing is:<br><br>The report contains information that relates to particular individuals and is likely to reveal the identity of an individual.<br><br>The public interest in not disclosing is served by averting the likelihood that disclosure would result in the identification of individuals or result in the disclosure about individuals in a way that would breach the non-disclosure provisions of the UK Data Protection Act 2018.<br><br>The instruction from the Public Services Ombudsman for Wales when sending the Decision Notice details that it may be shared with the Standards Committee privately. |
| **Argymhelliad** – Mae'r budd i'r cyhoedd wrth gadw'r eithriad o bwys mwy na'r budd i'r cyhoedd wrth ddatgelu'r wybodaeth.<br><br>**Recommendation** - The public interest in maintaining the exemption outweighs the public interest in disclosing the information. | |

This page is intentionally left blank

Document is Restricted

This page is intentionally left blank